WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2017 – **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**


Blwyddyn archwilio: 2017

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 323A2017-18

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Gwnaed y gwaith hwn gan Elaine Matthews, Barrie Morris,
Grace Hawkins, Steve Stark a Gareth Lewis o dan gyfarwyddyd Dave Thomas.

# Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ymgorffori'r trefniadau corfforaethol sy'n ei gefnogi i ddefnyddio ei adnoddau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad a chefndir 4

Canfyddiadau Allweddol 5

Argymhellion 15

Adroddiad Manwl

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo'n rhesymol yn y gorffennol i gyflawni arbedion rheolaidd, ac wedi cryfhau ei drefniadau monitro a bodloni ei ofynion statudol o ran cydbwyso'r gyllideb ar gyfer y tair blynedd a ddaeth i ben yn 2016-17 16

Mae trefniadau o ran cynllunio a llywodraethu yn gadarn ar y cyfan gyda gwaith pellach ar y gweill i gefnogi cydnerthedd y sefydliad ac i gryfhau'r elfen o lywodraethu gwybodaeth 29

Atodiadau

Atodiad 1 – ymateb y Bwrdd Iechyd i argymhellion yr asesiad strwythuredig 50

# Adroddiad Cryno

## Cyflwyniad a Chefndir

1 Mae ein gwaith asesu strwythuredig yn helpu i ddylanwadu ar farn yr Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â threfniadau Bwrdd Iechyd Dysgu Powys i sicrhau ei fod yn defnyddio'i adnoddau mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus. Canfuasom o'r gwaith a wnaethom ni yn 2016 fod y Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei gynllunio strategol, ei sefyllfa ariannol a'r ffordd y mae'r bwrdd yn gweithio, er bod angen gwneud gwaith pellach er mwyn gwella rheoli ariannol ac i gwblhau trefniadau sicrwydd y bwrdd yn derfynol.

2 Fel yn y blynyddoedd a fu, yn ein gwaith asesu strwythuredig buom yn adolygu agweddau ar drefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu corfforaethol y Bwrdd Iechyd. Gan gydnabod y pwysau ariannol cynyddol y mae nifer o gyrff y GIG yn ei wynebu a'r her o gyflawni'r dyletswyddau o gydbwyso'r cyllidebau sy'n rhan o Ddeddf Cyllid (Cymru) 2014, rydym ni wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd i gynllunio a gwneud arbedion ariannol.

3 Rydym ni hefyd wedi defnyddio gwaith asesiad strwythuredig eleni er mwyn casglu tystiolaeth i gefnogi sylwebaeth ar gyfer Cymru gyfan. Bydd y sylwebaeth hon yn disgrifio sut y mae cyrff sector cyhoeddus perthnasol yn gweithio tuag at fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Adroddir ynghylch y sylwebaeth honno yn gynnar yn 2018.

4 Mae'r canfyddiadau a restrir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfweliadau ac ar sylwadau mewn cyfarfodydd bwrdd, pwyllgor a grŵp rheoli, ynghyd ag adolygiadau o ddogfennau a pherfformiad perthnasol a data ariannol.

5 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio tri chwarter o'i wariant yn sicrhau gofal iechyd gan ddarparwyr nad yw'n eu rheoli'n uniongyrchol. Darperir gwasanaethau mewn ychydig llai na 200 o leoliadau gwahanol yng Nghymru a Lloegr. Mae cleifion yn mynd i bum economi iechyd cyfagos a thu hwnt am wasanaethau iechyd arbenigol.

6 Mae'r Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Powys (Y Cyngor) wedi bod yn cydweithio'n agos ers sawl blwyddyn. Mae Bwrdd Cydbartneriaeth yn bodoli ac fe gaiff nifer o wasanaethau eu darparu drwy gyfrwng cytundebau Adran 33 gan gynnwys gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus hefyd yn bodoli a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys a sefydlwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

7 Ar ddechrau 2017, dechreuodd y Bwrdd Iechyd ar gyfnod o gydweithio agosach gyda'r Cyngor. Daeth y Prif Weithredwr yn Gyfarwyddwr Strategol Dros Dro ar gyfer Pobl yn y Cyngor, ochr yn ochr â'i swyddogaeth bresennol, a hynny am gyfnod o flwyddyn, o 1 Ionawr, 2017. Daeth y swydd hon, a oedd yn cynnwys cyfrifoldebau Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, i ben ym mis Hydref 2017. Bu Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol yn gweithio gyda'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn eu cyfanrwydd hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2017. Er bod y trefniadau hyn wedi dod i ddiwedd eu cyfnod, bydd Strategaeth

Iechyd a Gofal Powys yn parhau i lunio a chefnogi arferion cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor.

# Canfyddiadau Allweddol

8 Mae gwaith asesu strwythurol eleni wedi dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi parhau i ymgorffori'r trefniadau corfforaethol sy'n ei gefnogi i ddefnyddio ei adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

9 Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol o gydbwyso'r gyllideb ar gyfer y tair blynedd a ddaeth i ben yn 2016-17 ac wedi esblygu ei ddulliau o gynllunio, darparu a monitro cynlluniau arbedion.

10 Mae trefniadau o ran cynllunio a llywodraethu yn gadarn ar y cyfan gyda gwaith pellach ar y gweill i gefnogi cydnerthedd y sefydliad ac i gryfhau'r agwedd o lywodraethu gwybodaeth.

11 Mae'r rhesymau dros ddod i'r canfyddiadau hyn wedi eu crynhoi isod.

## Cynllunio a Rheoli Ariannol

12 Wrth adolygu'r trefniadau cynllunio a rheoli ariannol, canfuasom fod y Bwrdd Iechyd wedi llwyddo'n rhesymol yn y gorffennol i gyflawni arbedion rheolaidd, wedi cryfhau ei drefniadau monitro ac wedi bodloni ei ofynion statudol o ran cydbwyso'r gyllideb ar gyfer y tair blynedd a ddaeth i ben yn 2016-17.

### Perfformiad ariannol

13 Yn y blynyddoedd a fu, mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu cynlluniau ariannol cytbwys, wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'i gynlluniau arbedion ac ar y cyfan yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r arbedion y mae wedi eu cynllunio ar gyfer 2017-18. Bu i'r Bwrdd gymeradwyo cynllun ariannol cytbwys ar gyfer y flwyddyn 2016-17 yn rhan o'i Gynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2016-19. Y prawf statudol cyntaf o'r gofyniad hwn oedd y cyfnod o dair blynedd hyd at 2016-17, a llwyddodd y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio yn hyn o beth.

14 Bu i'r bwrdd osod cyllideb gymeradwy, gytbwys ar gyfer 2017-18 yn rhan o'i Gynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2017-21. Mae strategaeth iechyd a gofal fwy hirdymor y Bwrdd Iechyd yn gosod y cefndir ar gyfer datblygiadau trawsnewidiol i wasanaethau i'w rhoi ar waith gyda'r Cyngor. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu model manwl o ofal a fydd yn dylanwadau ar sut y caiff adnoddau eu dyrannu yn y dyfodol.

15 Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod targedau lled uchelgeisiol ond cyraeddadwy ar y cyfan o ran gwneud arbedion. Er nad yw wedi gwneud yr holl arbedion mewn unrhyw flwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd ar y cyfan wedi cyflawni yn unol â'r disgwyliadau hynny ym mhob blwyddyn ar wahân i un (2013-14).

16 Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gydbwyso'r gyllideb yn 2016-17, gan wneud £3.5 miliwn o arbedion o gynlluniau arbedion penodol o'i gymharu â tharged o £4.6 miliwn yn yr IMPT.

17 Ar gyfer 2017-18 mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn gwneud yr arbedion i gyd, gwerth £3.3 miliwn, gan lwyddo erbyn mis 7 i arbed £1.6 miliwn o'i gymharu â'r cynllun i arbed £1.8 miliwn (91%) erbyn y cyfnod hwnnw. Mae'n disgwyl gallu cydbwyso'r gyllideb ar gyfer 31 March 2018 drwy gyflawni ei gynlluniau arbedion; gwario llai ar staff asiantaeth, parhau â gofal iechyd a gofal sylfaenol, ac adolygu'r fantolen eto i weld pa gyfleoedd sy'n bodoli.

## Cynllunio a chyflawni arbedion ariannol

18 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella'r ffordd y mae'n mynd ati i gynllunio a chyflawni cynlluniau arbedion ac yn cydnabod y bydd angen seilio arbedion ar newidiadau mwy trawsffurfiol yn y gwasanaeth er mwyn mynd i'r afael â heriau ariannol y dyfodol.

19 Ym mis Tachwedd 2016, gosododd y Cyfarwyddwr Cyllid a ThG newydd y targedau arbedion ar gyfer cynllun ariannol 2017-18. Roedd y ffigur yr oedd y targedau hyn yn seiliedig arno yn deillio o'r pwynt hanner ffordd rhwng yr 1% y mae'r GIG wedi llwyddo i'w gyflawni yn hanesyddol a'r 1.5% y nodwyd sydd ei angen yn yr adroddiad diweddar gan y Sefydliad Iechyd[1]. Rhoddwyd targed i bob cyfarwyddiaeth arbed 1.5%, ac eithrio cyllidebau tâl gwasanaethau darparu, yr oedd gofyn iddynt arbed 0.75%. Rhannwyd manylion pellach ynghylch yr holl gynlluniau arbedion â'r Pwyllgor Cynllunio a Chyflawniad Ariannol ym mis Medi 2017.

20 Mae'r broses cynllunio arbedion wedi ei chyfuno'n llwyr â phroses yr IMTP ac felly mae cynlluniau arbedion yn gydnaws a'r peryglon a'r amcanion a nodwyd yn yr IMTP. Mae'r IMTP ar gyfer 2017-20 yn dangos bod bwlch cyllido sylfaenol cynyddol y mae gofyn gwneud arbedion ychwanegol er mwyn ei gau. Ymhellach, mae'r IMTP yn nodi y bydd angen cynlluniau arbedion o oddeutu'r un maint ar gyfer pob blwyddyn hyd at 2019-20 er mwyn sicrhau cydbwysedd yn y gyllideb. Daethpwyd â chylchred gynllunio'r cynlluniau gwariant ar gyfer 2018-19 ymlaen i fis Hydref 2017.

21 Dylai pwyslais cynyddol ar gynlluniau cylchol leihau'r pwysau cyllidebol yn y blynyddoedd dilynol. Y gyfradd arbedion rheolaidd yn 2017-18 yw 82%, cynnydd ar y 70% yn y flwyddyn gynt. Mae'r gyfradd hon yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn ceisio rhoi newidiadau mwy trawsffurfiol ar waith a fydd yn cefnogi ei strataegaeth hirdymor. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dull asesiad risg Cymru gyfan sy'n cynnwys dyfarniad o goch, oren neu wyrdd. Caiff y dyfarniadau hyn eu defnyddio'n gyson ym mhob prosiect. Yn seiliedig ar ein gwybodaeth o gynlluniau ac

[1] T Watt ac A Roberts, **The path to sustainability: Funding projections for the NHS in Wales to 2019/20 and 2030/31**, y Sefydliad Iechyd, Hydref 2016.

adroddiadau perfformiad, mae hi'n rhesymol dod i'r casgliad y caiff y dyfarniadau eu defnyddio'n briodol iawn.

## Monitro arbedion ariannol

22 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei system ar gyfer monitro arbedion ariannol yn effeithiol ac fe roddir y system hon ar brawf pan ddaw cynllunio arbedion ariannol yn fwy uchelgeisiol yn y dyfodol. Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau monitro gweithredol ar bob haen o'r sefydliad, a chaiff y rhain eu defnyddio'n feunyddiol, yn fisol ac yn chwarterol. Y prif fforwm gweithredol, ble trafodir cynlluniau risg ac arbedion, yw'r cyfarfod tîm Adolygu Cyflawniad y Cynllun Ariannol. Yn y cyfarfod hwn mae gofyn i bob partner busnes roi diweddariad i'r Cyfarwyddwr Cyllid a ThG ynglŷn â chynnydd pob cynllun gan gynnwys y dyfarniad risg. Gwelsom hyn yng nghyfarfod mis Hydref 2017. Roedd digon o amser i drafod cynlluniau a oedd wedi cael dyfarniad oren (nid oedd dim cynlluniau wedi cael dyfarniad coch), tynnu sylw at y problemau ac ystyried beth oedd angen ei wneud i unioni hynny. Yn y Grŵp Cyflawni a Pherfformiad mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn craffu ar yr arbedion.

23 Y Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad Ariannol yw is-bwyllgor y Bwrdd sy'n craffu ar gynlluniau cyllid ac arbedion. Er mwyn cael haen ychwanegol o graffu, bu i'r Bwrdd Iechyd gyflwyno papur yng nghyfarfod pwyllgor mis Medi 2017 a oedd yn amlinellu newidiadau i'r broses adrodd. Roedd y papur yn cynnwys rhestr fanwl o'r cynnydd mewn cysylltiad â'r cynlluniau arbedion i'w darparu ym mhob cyfarfod yn y dyfodol. Ym mhob cyfarfod, bydd un o'r rheolwyr ardal cyffredinol (neu swyddog cyfatebol) yn rhoi cyflwyniad ynglŷn â'u cynlluniau arbedion ac yn ateb cwestiynau'r aelodau. Roedd y cyflwyniad cyntaf gan reolwyr o ardal y gogledd a gwasanaethau menywod a phlant. Roedd derbyniad cadarnhaol i'r cyflwyniad gan y pwyllgor, fel modd o graffu ar y cynlluniau arbedion yn y mesydd hynny o'r busnes ac fel modd o graffu ar feysydd eraill yn y busnes.

## Cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion asesiad strwythuredig blaenorol ynglŷn â chynllunio a rheoli ariannol

24 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol ynglŷn â chynllunio ac adrodd ariannol.

25 Mae pedwar argymhelliad wedi eu cwblhau. Maen nhw'n ymwneud â'r broses o gymeradwyo'r gyllideb; datblygu cynlluniau arbedion; trefniadau ar gyfer rheolaeth a stiwardiaeth ariannol; a chynlluniau ynglŷn â monitro ac adrodd o ran cyflawni'r arbedion. Mae un argymhelliad, ynglŷn â diweddaru rheolau sefydlog a chyfarwyddiadau ariannol sefydlog, wedi ei gwblhau'n rhannol; mae rheolau sefydlog wedi eu diweddaru ond mae'r gwaith o ddiweddaru'r cyfarwyddiadau ariannol sefydlog yn dal i fod ar y gweill.

26 Ymddengys y bydd tri argymhelliad yn cael eu cyflawni, er nad ydynt wedi eu cwblhau eto. Maen nhw'n ymwneud â: rhoi trefniadau cynllunio olyniaethol ar waith yn y gyfarwyddiaeth ariannol; ail-flaenoriaethu'r gyllideb fel ei bod yn fwy cydnaws â startaegaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd, a chryfhau'r dystiolaeth fel bod yr effaith ar y gweithlu, cyllid, ystadau a ThG yn cael ystyriaeth drwyadl wrth ddatblygu'r cynlluniau cyflawni yn rhan o'r IMTP.

## Llywodraethu a sicrwydd

27 Canfuasom fod y trefniadau o ran cynllunio a llywodraethu yn gadarn ar y cyfan gyda gwaith pellach ar y gweill i gefnogi cydnerthedd y sefydliad ac i gryfhau'r agwedd o lywodraethu gwybodaeth.

### Cynllunio Strategol

28 Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun tymor canolig cymeradwy ac, ar y cyd â Chyngor Powys, mae ganddo Strategaeth Iechyd a Gofal mwy tymor hir, er bod angen mwy o waith i ddatblygu cynlluniau ategol. Rhoddir ystyriaeth i gryfhau datblygiad y cynlluniau ym mhroses ddatblygu cynlluniau'r gyfarwyddiaeth ar gyfer 2018-19. Mae'r gwaith o hyrwyddo cynlluniau'r Bwrdd Iechyd wedi gwella.

29 Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhan o'r cynlluniau newid strategol niferus sydd ar y gweill yn y sefydliadau y mae cleifion Powys yn ymweld â nhw. Mae hyn yn defnyddio llawer o adnoddau'r Bwrdd Iechyd ar lefel uwch.

30 Mae gan y Bwrdd Iechyd raglen cyfalaf cytunedig ar gyfer 2017-18 sy'n rhestru'r prosiectau arfaethedig a cheisiadau am offer sy'n gysylltiedig â'r IMTP. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu a chefnogi cynlluniau ar gyfer gwneud gwaith addasu sylweddol yn Ysbyty Llandrindod a chyda Phrosiect Gofal Cymunedol a Sylfaenol Ysbyty Machynlleth.

31 Mae'r Bwrdd yn ailysgrifennu ei amcanion yn rhan o ddatblygu ei IMTP fel eu bod yn gydnaws â'r Strategaeth Iechyd a Gofal a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gyda'r bwriad o gael yr IMTP yn gyfrwng i ymdrin yn llwyddianus â'r Strategaeth Iechyd a Gofal. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi trafod yn helaeth er mwyn llunio'r IMPT er nad yw cyfarfod cyntaf y Grŵp Rhanddeiliaid wedi ei drefnu tan fis Ionawr 2018.

32 Cafodd y Gyfarwyddiaeth Gynllunio a Pherfformiad ei ailstrwythuro yn 2016 ac fe benodwyd pedwar Cyfarwyddwr Cynorthwyol. Mae'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad yn ffyddiog bod ganddyn nhw'r strwythur staffio cywir erbyn hyn, sy'n cefnogi timau i fynd i'r afael â gofynion cynllunio a pherfformiad. Fodd bynnag, cydnabu ei bod hi'n her i fwrdd iechyd bychan fel Powys ddenu a chadw staff ar y lefel hon. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r her hon.

## Effeithiolrwydd y Bwrdd a’r pwyllgor a rheoliadau mewnol

33 Mae gan y Bwrdd a’r pwyllgorau gylch gorchwyl eglur y bu’r aelodau’n rhan fawr o’u llunio. Cymeradwyodd y Bwrdd y Rheolau Sefydlog diwygiedig a Chynllun Neilltuo a Dirprwyo Pwerau ym mis Ionawr 2017. Mae’r cynllun yn rhoi mwy o fanylion i sicrhau nad oes unrhyw amwysedd o ran swyddogaethau a chyfrifoldebau.

34 Mae Ysgrifennydd y Bwrdd wedi sicrhau bod holl gylchoedd gorchwyl y pwyllgorau wedi eu hadolygu ac y gwnaed hunanasesiadau. Caiff cofnod o gamau gweithredu ei wneud a’i adolygu ym mhob cyfarfod y Bwrdd a phob pwyllgor. Ar ddiwedd y cyfarfod cytunir ar yr eitemau y mae angen eu cyfeirio at sylw’r Bwrdd. Lluniwyd a chymeradwywyd adroddiadau blynyddol gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf ar gyfer pob pwyllgor. Yr unig beth a hepgorwyd oedd y rhaglenni gwaith ar gyfer y Bwrdd a phob pwyllgor y cawsant eu cwblhau ar gyfer 2017-18 dim ond o fis Awst 2017 ymlaen. Er y rhoddwyd sicrwydd inni fod pob pwyllgor yn dilyn cynlluniau gwaith drafft, mae hi’n bwysig y caiff cynlluniau gwaith eu cwblhau a’u cyflwyno’n gynharach yn y flwyddyn.

35 Mae holl bapurau’r Bwrdd yn gyhoeddus bellach ac ar gael ar y we oni bai bod angen iddynt fod yn gyfrinachol. Adroddir sesiynau pwyllgorau mewnol i’r Bwrdd, gan helpu gyda thryloywder. Mae hi’n bwysig yr adolygir dolenni’n rheolaidd ac y cedwir nhw’n fyw. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn adolygu’r holl bapurau cyn iddynt gael eu cyhoeddi ar y we i sicrhau nad ydynt yn cynnwys gwybodaeth na ddylai fod yn gyhoeddus a’u bod yn cydymffurfio â’r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

36 O fynychu cyfarfodydd ac edrych ar raglenni a dogfenau cyfarfodydd, gwelsom fod y pwyllgorau’n gweithio’n dda.

37 Mae dau aelod annibynnol profiadol wedi gadael oherwydd eu bod wedi cyrraedd diwedd eu cyfnod yn eu swyddi. Penodwyd aelodau annibynnol newydd, cadarn, ac maent wedi cynefino’n gyflym, gan arwain at gyfnod pontio didrafferth. Mae aelodau annibynnol yn cymryd rhan mewn sesiynau datblygu Bwrdd rheolaidd gan ddilyn rhaglen sydd wedi ei hamserlennu ond sydd hefyd yn ymateb i ddigwyddiadau.

38 Mae’r awyrgylch rheoli mewnol wedi gwella ymhellach yn ystod y flwyddyn. Mae’r archwiliad mewnol yn un eang ei gwmpas ac yn canolbwyntio ar feysydd risg a meysydd ble roedd pryder bod angen gwelliannau. Er gwaethaf gwaith mawr i wella sicrwydd dros y blynyddoedd diwethaf, cafwyd dyfarniad ‘sicrwydd rhannol’ unwaith yn rhagor gan Bennaeth yr Archwiliad Mewnol ar gyfer 2016-17. Bodlonodd y Bwrdd ei ofynion adrodd blynyddol.

39 Gwnaed cynnydd da hefyd i gryfhau gwasanaethau archwiliadau clinigol a gwrthwynebu twyll, fel yr argymhellwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd. Fodd bynnag, mae hi’n destun pryder mawr nad yw’r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i ddefnyddio’r Fenter Twyll Genedlaethol yn effeithiol yn rhan o’i drefniadau i rwystro a chanfod twyll. Yn ddiweddar, mae’r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad o’r data sydd ganddo sy’n cyfateb i ddata’r Fenter Twyll Genedlaethol ac wedi blaenoriaethu gwneud y gwaith hwn yn ystod Ionawr 2018 a thu hwnt, gan

ganolbwyntio ar y nifer fechan o gyfatebiadau blaenoriaeth uchel yn gyntaf. Mae hi'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn sicrhau y caiff y cyfatebiadau mae'n eu derbyn gan y Fenter Twyll Genedlaethol eu hadolygu a, ble bo angen, eu harchwilio'n brydlon.

40 Ynghyd ag adolygu'r gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion ein hasesiad strwythuredig yn 2016, bu inni hefyd ystyried pa mor effeithiol oedd trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i argymhellion ein harchwiliad. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn rhoi'r diweddaraf ynglŷn â chynydd o ran bodloni argymhellion yr archwiliad mewnol ac allanol ill dau, ac mae hefyd yn cyflwyno adroddiadau eithriad ynglŷn ag argymhellion lle bu cynnydd araf neu fawr ddim cynnydd. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn trafod â Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru er mwyn defnyddio eu cronfa ddata sy'n gwirio argymhellion.

## Strwythur y sefydliad

41 Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn cryfhau cydnerthedd a gallu'r sefydliad. Bu'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i aildrefnu'r model gweithredu a sefydlwyd yn ystod 2016. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar adain gyflawni gweithredol y Bwrdd Iechyd yn y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl.

42 Her ddiweddar i'r Bwrdd Iechyd fydd llenwi'r bwlch a adewir gan ymadawiad y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, a fydd yn ymuno â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf o ddiwedd 2017. Mae trefniadau wedi eu rhoi ar waith a bydd y Cyfarwyddwr Nyrsio yn ymgymryd â'r cyfrifoldebau ar gyfer gwasanaethau cymunedol, menywod a phlant. Bydd y Prif Weithredwr yn arwain ar ofal sylfaenol gyda chefnogaeth Cyfarwyddwr y Rhaglen Gofal Sylfaenol tra bydd y Cyfarwyddwr Meddygol yn cynnig arweiniad clinigol. Mae Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro wedi ei benodi'n ddiweddar.

## Fframweithiau sicrwydd a rheoli risg

43 Mae gan y Bwrdd fframwaith cymeradwy ar gyfer sicrwydd a rheoli risg, sydd erbyn hyn yn bwrw gwreiddiau drwy'r sefydliad. Ym mis Ionawr 2017, cymeradwywyd cyfres o ddogfennau gan y Bwrdd er mwyn ategu ei drefniadau llywodraethu: y fframwaith rheoli risg; y fframwaith sicrwydd; a'r gofrestr risg gorfforaethol. Bu fframweithiau sicrwydd ar lefel y gyfarwyddiaeth ar waith ers diwedd mis Mehefin 2017 gyda rhaglen o wiriadau achlysurol a hunanasesiadau wedi ei datblygu a'i chyflwyno. Mae gwaith hefyd yn parhau ar gofrestri risg y pwyllgorau er mwyn dwyn ynghyd yr holl risgiau perthnasol ar gyfer pob pwyllgor o'r gofrestr risg gorfforaethol, y fframwaith sicrwydd a chofrestri risg y cyfarwyddiaethau perthnasol.

44 Buom yn arsylwi'r trefniadau sicrwydd mewn cyfarfodydd Bwrdd a chyfarfodydd pwyllgor. Mae'r trefniadau o ran is-gyfeirio risgiau corfforaethol wedi cryfhau, yn ôl awgrym y Pwyllgor Gweithredol. Cânt bellach eu hadolygu gan y pwyllgor perthnasol cyn i'r Bwrdd eu cymeradwyo.

45 Er y gallai'r trefniadau hyn ymddangos yn fiwrocrataidd ac er y cymerasant gryn dipyn o amser i'w datblygu, eu diben yw bod yn 'llinyn euraid' fel bod modd uwchgyfeirio risgiau sylweddol sy'n ymddangos yn y gwasanaethau i'r Bwrdd. Un enghraifft o risg sylweddol a uwchgyfeiriwyd i'r Bwrdd yw risg CR10, sef methiant y gwasanaethau meddygol cyffredinol i ddarparu gofal o fewn ac y tu hwnt i oriau cyffredin. Roedd Shropdoc, y cwmni sy'n darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol y tu hwnt i oriau cyffredin i gynghorau Powys, Swydd Amwythig, Telford a Wrekin yn wynebu heriau ariannol ac fe gytunodd comisiynwyr y GIG yn y siroedd hynny i roi peth cefnogaeth dros dro. Mae'r Bwrdd wedi bod yn rhan lawn o'r ystyriaethau a'r penderfyniadau i sicrhau dilyniant y gofal i gleifion lleol. Bydd yr archwiliad mewnol yn adolygu'r mesurau sicrwydd risg yn gynnar yn 2018 er mwyn gwirio pa mor dda y mae'r trefniadau'n gweithio yn ymarferol.

## Trefniadau rheoli perfformiad

46 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i wella trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer gwasanaethau a gânt eu darparu a rhai a gânt eu comisiynu. Cymeradwyodd y Bwrdd fframwaith newydd ym mis Medi 2017 ar gyfer gwella perfformiad. Mae'r fframwaith hwn yn cefnogi sicrwydd cyffredinol y Bwrdd o ran rheoli'r prif risgiau sydd ynghlwm â chyflawni amcanion strategol a darparu gofal o ansawdd i gleifion.

47 Bu'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau trefniadau comisiynu ers 2015 ac ym mis Tachwedd 2016 cymeradwyodd fframwaith gomisiynu strategol newydd. Mae'r fframwaith yn egluro'r trefniadau ar gyfer cefnogi comisiynu effeithiol. Y diben yw sicrhau bod gan y sefydliad y strategaeth, y bobl, y prosesau a'r strwythurau cywir; a bod ganddo fodel sy'n adlewyrchu gwerthoedd a threfniadau GIG Cymru. Ochr yn ochr â hyn mae'r fframwaith sicrwydd comisiynu sy'n cynnig mecanwaith i adolygu pryderon ynglŷn â chyllid a pherfformiad gwasanaethau wedi eu comisiynu. Cafwyd dyfarniad o sicrwydd rhesymol mewn adroddiad archwilio mewnol ym mis Mai 2017 o ran effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol sydd ar waith er mwyn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chomisiynu.

48 Mae'r Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad Ariannol yn adolygu adroddiad perfformiad integredig ym mhob cyfarfod, ac felly hefyd y Bwrdd. Mae'r adroddiad integredig yn ymwneud â pherfformiad gwasanaethau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu darparu, a'r rai y comisiynwyd sefydliadau eraill i'w darparu. Roedd y cyflawniad mewn cymhariaeth â'r cynllun a'r perfformiad mewn cymhariaeth â'r mesurau yn dda ar ddiwedd ail chwarter 2017-18, fel yr adroddwyd i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2017. Mae pob un o'r chwe amcan mewn sefyllfa gyfunol dda o'i gymharu â mesurau a chyflawniad y cynllun. Yn chwarter dau, gwnaed cynnydd cadarnhaol mewn naw o'r deg amcan strategol sydd â mesurau perfformiad cysylltiedig o'u hystyried gyda'i gilydd a'u cymharu â'r mesurau. Mae wyth o'r deuddeg amcan

strategol mewn sefyllfa dda o ran eu cyflawni o'u cymharu â'r cynllun. Os oes meysydd nad ydynt yn cyrraedd y targedau, mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn eu trafod yn fanwl.

49 Rhoddodd ardaloedd y gogledd a'r de gyflwyniadau manwl ynglŷn â pherfformiad gwasanaethau yn eu hardaloedd i'r Pwyllgor Diogelwch, Ansawdd a Phrofiad Cleifion yng nghyfarfodydd Chwefror a Mawrth 2017. Roedd aelodau'r pwyllgor yn chwilfrydig ynglŷn â'r cyflwyniadau, gofynasant nifer o gwestiynau a chawsant atebion derbyniol ynglŷn â pherfformiad gwasanaethau y mae'r ysbytai cymunedol yn eu darparu.

## Trefniadau i reoli'r gweithlu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus

50 Mae gwaith ar y gweill i adnabod yr elfennau hynny o gynlluniau cyflawni'r IMTP sy'n ymwneud â'r gweithlu, ac mae craffu'n systematig ar drefniadau rheoli'r gweithlu wedi arwain at welliannau mewn rhai mesuriadau yn ymwneud â'r gweithlu. Mae cynllunio'r gweithlu yn bwyslais allweddol i'r Bwrdd Iechyd ac mae wedi ei adlewyrchu yn un o'r chwe nod strategol ac un o'r 12 amcan strategol.

51 Mae cynlluniau gweithlu fel y'u disgrifir yn yr IMTP wrthi'n cael eu datblygu. Mae'r cynlluniau'n dangos bod angen recriwtio mewn sawl maes, yn ddibynnol ar gymeradwyo'r achos busnes, ac mae angen cefnogaeth ar rai cynlluniau datblygu er mwyn datblygu hyfforddiant. Mae adolygiadau hefyd ar y gweill mewn rhai meysydd er mwyn canfod beth yw gallu'r gweithlu a sgiliau'r staff ar hyn o bryd.

52 Mae'r archwilwyr mewnol yn adolygu'r maes rheoli'r gweithlu bob blwyddyn. Mae'r adroddiad ar gynllunio'r gweithlu ym mis Medi 2017 yn dweud y gall y Bwrdd Iechyd fod yn gymharol ffyddiog yn ei drefniadau. Y prif risg i'r Bwrdd Iechyd oedd unwaith yn rhagor y gallu i lenwi swyddi clinigol allweddol. Roedd gwaith yn parhau i wella'r elfen recriwtio a chadw staff ar bob haen yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r risg o ran recriwtio ar y gofrestr risg gorfforaethol ac mae'r Pwyllgor Datblygu'r Sefydliad yn ei hadolygu.

53 Mae hi'n bwysig bod gan y Bwrdd Iechyd brosesau recriwtio effeithlon. Un o'r mesurau yn hyn o beth yw cyfanswm yr amser recriwtio, oherwydd gall oedi wrth gynnig swyddi arwain at ymgeiswyr yn tynnu'n ôl ac at ddefnyddio staff dros dro i lenwi swyddi gweigion. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella'r amser a gymerir i gwblhau'r holl gamau o bron iawn 90 diwrnod yn 2013-14 i 65 diwrnod yn 2016-17, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru gyfan. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu'r Sefydliad yn edrych ar ffyrdd o gyflymu'r broses recriwtio.

54 Yn ystod y flwyddyn bu cynnydd yn y gyfradd trosiant staff. Yn y deuddeg mis hyd at fis Hydref 2017, cynyddodd y trosiant i 11.55% o 9.21% yn y mis Hydref blaenorol. Er bod gan y Bwrdd Iechyd holiadur ymadael, clywsom fod rhai aelodau staff yn hwyrfrydig i'w gwblhau wrth adael eu swyddi. Mae angen gwneud gwaith ychwanegol i wella'r elfen casglu gwybodaeth gan staff sy'n gadael y sefydliad a defnyddio'r wybodaeth hon.

55 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cadw llygad manwl ar recriwtio staff gan ddefnyddio cronfeydd ac asiantaethau. Mae angen nyrsys dros dro ar y Bwrdd Iechyd oherwydd bod ganddo rhwng 27 a 30 o swyddi nyrsio gwag ar unrhyw adeg. Caiff y gwariant ar staff asiantaeth ei fonitro yn rhan o’r adroddiad cyllid misol. Sefydlwyd Uned Staffio Dros Dro yn ystod y flwyddyn sy’n darparu nyrsys a staff meddygol ac mae disgwyl iddo wella trefniadau, er enghraifft, drwy feithrin cysylltiadau cryfach â chylchrestru. Mae’r archwiliwyr mewnol yn adolygu’r gwariant ar Asiantaethau ac Ymgynghori, a byddant yn rhyddhau eu hadroddiad yn 2018.

56 Gwnaed peth gwelliannau mewn sawl maes o reoli’r gweithlu yn ystod y flwyddyn, ac maent yn well na Byrddau Iechyd eraill, er na chyrhaeddwyd targedau Llywodraeth Cymru. Y meysydd hyn yw: cyfraddau absenoldeb salwch; lefelau cydymffurfio statudol a gorfodol; cyfraddau gwerthuso perfformiad ac adolygu datblygiad; a chyfraddau ailddilysu meddygol.

## Llywodraethu gwybodaeth, rheoli gwybodaeth a thechnoleg.

57 Mae llywodraethu gwybodaeth yn faes risg na roddir llawer o allu staff iddo, ac yn faes ble mae angen gweithredu Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yr EU. Mae ein hadroddiadau asesu strwythuredig yn y tair blynedd diwethaf wedi bod yn canolbwyntio ar ymdrechion parhaus y Bwrdd Iechyd i gryfhau’r gwaith o lywodraethu gwybodaeth a threfniadau goruchwylio.

58 Dywedodd Pennaeth dyfarniad yr Archwiliad Mewnol ar gyfer 2016-17 ei fod yn bryderus ynglŷn â’r maes llywodraethu gwybodaeth a diogelwch TG, a gafodd ddyfarniad cyffredinol o sicrwydd cyfyngedig.

59 Ysgrifennydd y Bwrdd yw’r Arweinydd Gweithredol ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth a’r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth. Mae hi’n rheoli’r tîm bychan sy’n ymdrin â llywodraethu gwybodaeth ac mae ei lwyth gwaith yn parhau’n heriol er gwaetha’r ymdrechion a wnaed i roi’r pwyslais ar bob cyfarwyddiaeth i wneud eu gwaith llywodraethu gwybodaeth eu hunain, gyda chefnogaeth hyrwyddwyr llywodraethu gwybodaeth ym mhob cyfarwyddiaeth. Nid yw’r hyrwyddwyr llywodraethu gwybodaeth yn gyfrifol am lywodraethu gwybodaeth yn eu cyfarwyddiaethau ond maen nhw’n ffynhonnell o wybodaeth gyffredinol i’r gyfarwyddiaeth y maen nhw’n gweithio ynddi ac yn sicrhau bod llywodraethu gwybodaeth yn parhau i gael lle pwysig ar eu rhaglenni. Mae’r grŵp hyrwyddwyr llywodraethu gwybodaeth wedi disodli’r Grŵp Rheoli Llywodraethu Gwybodaeth nad oedd yn effeithiol. Mae’r hyrwyddwyr yn edrych ar ffyrdd o fesur perfformiad ac effeithiolrwydd y grŵp hyrwyddwyr, a bydd adroddiadau cynnydd yn cael eu rheoi i’r Grŵp Rheoli Llywodraethu Gwybodaeth. Mae’r tîm llywodraethu gwybodaeth wedi cynnal asesiad gan ddefnyddio nodyn cyfarwyddyd Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ‘12 Steps to Readiness’ Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth. Cynigwyd cael aelod arall o staff i helpu i baratoi ar gyfer y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, a heb yr aelod staff hwn dywedir wrthym y gallai’r Bwrdd Iechyd ei chael hi’n anodd cydymffurfio erbyn y dyddiad gofynnol.

60 Mae’r trefniadau o dan Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) ac asesiad Caldicott: Principles into Practice assessment (C:PiP) yn gwella. Fodd bynnag, mae cynnydd yn nifer a chymhlethdod ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau gwrthrych am wybodaeth yn effeithio ar allu’r tîm llywodraethu gwybodaeth i wneud gwaith arall.

61 Mae rhestr y polisi llywodraethu gwybodaeth yn nodi bod y polisïau a’r gweithdrefnau allweddol ar waith o ran llywodraethu gwybodaeth, ac mae rhai o’r dyddiadau adolygu dogfennau wedi eu hymestyn hyd at fis Mai 2018, oherwydd gwaith sy’n cael ei wneud yn genedlaethol i adolygu polisïau yn barod ar gyfer cyflwyno’r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

62 Mae’r gofrestr risg gorfforaethol ar gyfer mis Medi 2017 yn nodi bod y risgiau canlynol yn rhai mawr: CR8 Diffyg system TGCh gydnerth a sefydlog. Yr hyn sydd angen ei wneud yw cryfhau’r seilwaith TGCh i sicrhau adnodd TGCh sefydlog ar gyfer y Bwrdd Iechyd a’r Cyngor sy’n hyblyg ac wedi’i diogel at y dyfodol. Y Cyfarwyddwr Cyllid yw’r Arweinydd Gweithredol ar gyfer TG a bu yn ei swydd gydol 2017 gan ddod â pheth sefydlogrwydd i’r portffolio technoleg a rheoli gwybodaeth, a newidiodd dair gwaith yn ystod 2016.

63 Nid yw hi’n eglur a oes gan y gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg ar y cyd ddigon o adnoddau i fodloni’r gofynion cyflenwi o safbwynt y Bwrdd Iechyd. Er bod strwythurau staffio TG yn bodoli, maent yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Yn ychwanegol at hyn, ni wnaed unrhyw arolygon bodlonrwydd defnyddwyr yn ddiweddar er mwyn canfod barn defnyddwyr TG ynglŷn â’r gwasanaeth a ddarperir. Nid yw’r ddesg gwasanaeth yn cyflawni ei gytundeb lefel gwasanaeth yn llwyr o ran yr amser a gymerir i ateb galwadau, sydd ar hyn o bryd yn 80%.

64 Mae’r Cydstrategaeth TGCh bresennol wedi cael ei thrawsffurfio’n sylweddol, a bellach mae hi’n gydnaws â Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ddigidol ar gyfer Cymru. Ei diben yw bodloni gofynion Llywodraeth Cymru sef bod gan bob Bwrdd Iechyd Raglen Amlinellol Strategol. Dywedwyd wrthym ni y bydd y strategaeth yn blaenoriaethu cwsmeriaid ac y bydd yn cyfeirio at System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, a rhagwelir y caiff y strategaeth ddiwygiedig ei chwblhau yn gynnar yn 2018.

65 Mae’r polisi diogelwch gwybodaeth yn ymdrin â seiberddiogelwch. Mae dogfen Trefniadau Ymateb i Ddigwyddiadau TGCh yn bodoli hefyd, yn sgil adolygiad mewnol o seiber ddiogelwch yn y Bwrdd Iechyd a’r Cyngor a’r ymosodiadau maleiswedd bydeang.

# Argymhellion

66 Manylir ar argymhellion sy'n deillio o waith asesu strwythuredig 2017 yn Nhabl 1. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd barhau i ganolbwyntio ar unrhyw argymhellion blaenorol nad ydyn nhw wedi eu cwblhau eto.

67 Caiff ymateb rheolaethol y Bwrdd Iechyd, yn disgrifio'n fanwl sut y mae'n bwriadu ymateb i'r argymhellion hyn, ei gynnwys yn Atodiad 1 pan fydd wedi'i gwblhau, a chaiff ei ystyried gan bwyllgor perthnasol y bwrdd.

Arddangosyn 1: argymhellion 2017

| Argymhellion 2017 | |
|---|---|
| **Rhaglenni gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau** | |
| A1 | Nid oedd rhaglenni gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau wedi eu cymeradwyo ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Er y rhoddwyd sicrwydd inni bod yr holl bwyllgorau yn seilio eu gwaith ar gynlluniau gwaith drafft, fe wnaethom ni argymell y dylid cwblhau pob un o raglenni gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau cyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. |
| **Cyfraddau trosiant staff cynyddol** | |
| A2 | Cynyddodd y gyfradd trosiant staff yn y 12 mis hyd at fis Hydref 2017 i 11.55%, o 9.21% yn y mis Hydref blaenorol. Hon oedd y gyfradd uchaf yng Nghymru. Er bod y Bwrdd Iechyd yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon, rydym yn argymhell bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud gwaith pellach i ddeall y rhesymau dros y trosiant cynyddol yn y gweithlu ac yn mynd ati i wyrdroi'r cynnydd. |
| **TG a llywodraethu gwybodaeth** | |
| A3 | Caiff gwasanaethau TG eu darparu drwy gyfrwng cytundeb Adran 33 â'r Cyngor. Nid yw'r ddesg wasanaeth yn cyrraedd ei thargedau yn ei chytundeb lefel gwasanaeth o ran yr amser a gymerir i ateb galwadau. Ni wnaed unrhyw arolygon defnyddwyr diweddar er mwyn canfod barn defnyddwyr TG am y gwasanaeth a ddarperir. Argymhellwn fod arolwg o fodlonrwydd defnyddwyr â gwasanaethau TG yn cael ei gynnal. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo'n rhesymol yn y gorffennol i gyflawni arbedion rheolaidd, wedi cryfhau ei drefniadau monitro ac wedi bodloni ei ofynion statudol o ran cydbwyso'r gyllideb ar gyfer y tair blynedd a ddaeth i ben yn 2016-17

68 Mae ein gwaith asesu strwythuredig yn 2017 yn ystyried yr hyn y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud er mwyn cydbwyso'r gyllideb a chreu cynaliadwyedd ariannol mwy hirdymor. Mae gwaith eleni wedi canolbwyntio'n benodol ar drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol.

69 Nid ydym ni wedi ystyried y ffyrdd gwahanol yr aethpwyd ati'n fanwl i gynllunio a chyflawni cynlluniau arbedion unigol, er ein bod ni wedi edrych yn benodol ar gynlluniau arbedion rheolaeth meddyginiaeth i helpu rhoi sail i'n barn ynglŷn ag effeithiolrwydd cyffredinol cynllunio arbedion a threfniadau cyflawni yn y Bwrdd Iechyd. Ynghyd â hyn, rydym ni wedi adolygu'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol yn ymwneud â rheolaeth ariannol. Mae ein canfyddiadau wedi eu rhestru isod yn y strwythur canlynol:

- effaith y dulliau o arbed arian ar sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliad;
- y trefniadau sydd ar waith i gynllunio a chyflawni arbedion;
- monitro a chraffu ar arbedion; ac
- y cynnydd a wnaed mewn cysylltiad â'r argymhellion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd.

### Yn y blynyddoedd a fu, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod cynlluniau ariannol cytbwys, wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'i gynlluniau arbedion ac ar y cyfan yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r abedion y mae wedi eu cynllunio ar gyfer 2017-18

70 Bob blwyddyn, dyrennir refeniw i'r Bwrdd Iechyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi'r adnoddau i'r Bwrdd Iechyd allu talu am wasanaethau gofal iechyd a ddarperir yn lleol a chaiff eu contractio ar gyfer ei boblogaeth breswyl. Yr enw ar y dyraniad hwn yw Adnoddau Refeniw Adenilladwy. Bob blwyddyn mae cynnydd yn yr Adnoddau Refeniw Adenilladwy a ddyrennir ar ddechrau'r flwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynnydd hwn mewn refeniw yn helpu i fynd i'r afael â chostau chwyddiant gofal iechyd. Mae hyn yn cynnwys cynnydd mewn costau cyflogau, costau meddyginiaethau, a galw cynyddol am wasanaethau.

71 Dros gyfnod treigl o dair blynedd mae gan y Bwrdd Iechyd gyfrifoldeb statudol i wario o fewn terfynau'r dyraniadau hyn. Bu i'r Bwrdd gymeradwyo cynllun ariannol cytbwys ar gyfer y flwyddyn 2016-17 yn rhan o'i IMTP ar gyfer 2016-19. Y prawf statudol cyntaf o'r gofyniad hwn oedd y cyfnod o dair blynedd hyd at 2016-17, a llwyddodd y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio yn hyn o beth.


72 Bu i'r Bwrdd osod cyllideb gymeradwy, gytbwys ar gyfer 2017-18 yn rhan o'i Gynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2017-21. Mae strategaeth iechyd a gofal mwy hirdymor y Bwrdd Iechyd yn gosod y cefndir ar gyfer datblygiadau trawsnewidiol i wasanaethau i'w rhoi ar waith gyda'r Cyngor. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu model manwl o ofal a fydd yn dylanwadu ar sut y caiff adnoddau eu dyrannu yn y dyfodol.

73 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn dyraniad cyllid strwythuredig ychwanegol bob blwyddyn ers 2014-15 oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi nodi anghydbwysedd cyllid strwythuredig hirhoedlog a oedd yn adlewyrchu swyddogaeth gomisiynu'r Bwrdd Iechyd â'r ddeinameg sy'n deillio o hynny. O'r herwydd, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth strwythurol rheolaidd o £25 miliwn y flwyddyn o 2014-15 ymlaen. Mae'r cyllid hwn wedi caniatáu i'r Bwrdd Iechyd gynhyrchu IMTP cytbwys wedi ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn ers 2015-16. Er na wnaeth Llywodraeth Cymru gynnwys y dyraniad cyllid strwythurol o £16.864 miliwn yn y dyraniad gwreiddiol, mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n trafod gyda Llywodraeth Cymru am flynyddoedd y dyfodol.

74 Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod targedau lled uchelgeisiol ond cyraeddadwy ar y cyfan o ran gwneud arbedion. Er nad yw wedi gwneud yr holl arbedion mewn unrhyw flwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd ar y cyfan wedi cyflawni yn unol â'r disgwyliadau hynny ym mhob blwyddyn ar wahân i un (2013-14) (Arddangosyn 2).

Arddangosyn 2: crynodeb o gyflawniad y cynllun arbedion

Mae'r siart yn dangos y duedd o gyflawni'r cynlluniau arbedion dros y pum mlynedd ariannol diwethaf. Mae'r colofnau coch yn dangos yr arbedion a gynlluniwyd ar ddechrau'r flwyddyn ac yn cymharu hyn â'r arbedion a gyflawnwyd ar ddiwedd y flwyddyn.




Ffynhonnell: Arbedion a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ei adroddiadau monitro i Lywodraeth Cymru

75 Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes cymharol lwyddiannus o gyflawni cynlluniau arbedion o'i gymharu â'i gynllun IMTP. Yn 2016-17, llwyddodd y Bwrdd Iechyd i arbed £3.5 miliwn o gynlluniau a ragnodwyd. Er bod hyn yn gyflawniad da, roedd diffyg o £1.1 miliwn o'i gymharu â'r targed o £4.6 miliwn yn yr IMTP.

76 Er ei bod hi'n gadarnhaol bod gan y Bwrdd Iechyd hanes cymharol lwyddiannus o gyflawni arbedion, bu peth amrywiaeth rhwng cynlluniau sy'n tangyflawni a rhai sy'n gorgyflawni. Mae dadansoddiad 3 yn rhoi dadansoddiad cryno a baratowyd gan y Bwrdd Iechyd ynglŷn â gorgyflawni a thangyflawni mewn cysylltiad â'i gynlluniau arbedion. Ar gyfer 2016-17, gosododd y Bwrdd Iechyd y targed o £4.6 miliwn ac roedd 32 o gynlluniau arbedion i adrodd yn eu cylch. O'r cynlluniau arbedion hyn, bu i naw dangyflawni o £1.5 miliwn a bu i chwech gorgyflawni o £0.4 milliwn.

Arddangosyn 3: crynodeb o gyflawniad cynlluniau arbedion yn 2016-17

| Categori | Nifer y cynlluniau a ragnodwyd | Swm y cynlluniau cynlluniedig (£miliwn) | Swm a arbedwyd mewn gwirionedd (£miliwn) | Sum yr amrywiad (£miliwn) |
|---|---|---|---|---|
| Cynlluniau a ragnodwyd – gorgyflawnwyd o £10,001 i £50,000 | 3 | 0.453 | 0.531 | 0.078 |
| Cynlluniau a ragnodwyd – gorgyflawni o £50,001 – 100,000 | 2 | 0.248 | 0.428 | 0.180 |
| Cynlluniau a ragnodwyd – gorgyflawnwyd o fwy na £100,000 | 1 | 0.200 | 0.316 | 0.116 |
| Cynlluniau a ragnodwyd – wedi arbed y swm a fwriadwyd | 17 | 1.412 | 1.412 | 0 |
| Cynlluniau a ragnodwyd – tangyflawnwyd o £10,000 i £50,000 | 3 | 0.196 | 0.102 | -0.094 |
| Cynlluniau a ragnodwyd – tangyflawnwyd o £50,001 i £100,000 | 2 | 0.191 | 0.050 | -0.141 |
| Cynlluniau a ragnodwyd – tangyflawnwyd o £100,000 neu fwy | 4 | 1.916 | 0.673 | -1.244 |
| **Cyfanswm** | **32** | **4.616** | **3.512** | **-1.105** |

Ffynhonnell: Arbedion yn ôl adroddiadau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ym mis 12 2016-17

77 Sylwn o IMTP 2016-19 y rhagwelwyd mai'r bwlch sylfaenol ar ddechrau 2017-18 fyddai £dim, ond mae'r IMTP ar gyfer 2017-20 yn dangos y bu i'r bwlch cyllid sylfaenol ar gyfer 2017-18 gynyddu i £6.4 miliwn. Roedd hon yn sefyllfa debyg i'r hyn a ddigwyddodd yn 2016-17 a ddangosodd diffyg o £ddim ar gyfer IMTP 2016-19 ond sydd bellach yn dangos bwlch o £1.5 miliwn yn IMTP 2017-20. Felly, er bod cynlluniau arbedion yn cyfrannu tuag at leihau'r bwlch, mae'r ffaith nad yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei holl gynlluniau arbedion ynghyd â phwysau cyson o ran costau yn golygu y bydd hi'n anodd mynd i'r afael â'r bwlch sylfaenol. Mae hyn yn rhoi pwysau ar y Bwrdd Iechyd i ganfod mwy o arbedion rheolaidd na sydd efallai'n bosibl nac yn rhesymol.

78 Dangosodd IMPT y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-20 bod bwlch ariannol o £3 miliwn yn 2017-18 gyda chynlluniau i gydbwyso'r sefyllfa dros y cyfnod tair blynedd. Cymeradwywyd y cynllun hwn gan Lywodraeth Cymru. Ar gyfer 2017-18, nododd y Bwrdd Iechyd bod 46 o gynlluniau arbedion i adrodd


yn eu cylch gyda chyfanswm arbedion o £3.3 miliwn. Mae cynlluniau arbedion wedi eu rhannu rhwng gwasanaethau wedi eu comisiynu, sef ychydig dros hanner y cynlluniau (51%), rheoli meddyginiaethau (13%), gofal iechyd parhaus (6%) a chynlluniau eraill yn ymwneud â thâl a heb-dâl yn y gwasanaethau darparwyr (29%).

79 Ym Mis 6, roedd 17 cynllun a oedd yn tan gyflawni o £0.21 miliwn ac 13 cynllun oedd yn gorgyflawni o £0.16 miliwn. Ar gyfer 2017-18, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn gallu gwneud yr holl arbedion o £3.3 miliwn a gynlluniwyd. Hyd yma, ym Mis 6, mae wedi llwyddo i arbed £1.4 o'i gymharu â chynllun o £1.5 miliwn (93%).

80 Mae'r gofyniad o ran arbedion wedi lleihau ers hynny i £3.3 miliwn ac mae Dadansoddiad 4 yn dangos cynnydd y Bwrdd Iechyd ym Mis 6 o'i gymharu â'r targed hwn.

### Arddangosyn 4: crynodeb o berfformiad cynllun arbedion 2017-18 ym Mis 6

Mae'r siart yn dangos cyfanswm yr arbedion a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn o'u cymharu â'r arbedion gwirioneddol ym mis 6. Mae'r siart hefyd yn dadansoddi'r categorïau risg.




Ffynhonnell: 2017-18 Adroddiad Arbedion Mis 6 gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys

81 O ystyried yr amrywiaeth yng nghanlyniadau'r cynlluniau arbedion mae risg na fydd y Bwrdd Iechyd o bosibl yn gallu arbed cymaint o arian ag sy'n ofynnol neu na all barhau i orgyflawni mewn rhai meysydd i wneud iawn am rai eraill. Fe allai hyn gael effaith niweidiol ar ei allu i gydbwyso'r gyllideb. Er mwyn mynd i'r afael â'r risg hwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid a ThG wrthym ni fod y sawl sy'n gyfrifol am y cynllun yn gyfrifol am ddyfeisio cynllun arall i gyflawni'r arbedion os nad yw'r cynllun yn cyflawni.

82 Hyd yma y sefyllfa ym mis 7 ar gyfer 2017-18 yw y bu gorwariant o £0.769 miliwn ond y rhagwelir y bydd y gyllideb yn cydbwyso erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn sefyllfa well o'i chymharu â'r gorwariant arfaethedig o £1.750 miliwn yr oedd yr IMTP yn ei ragweld ac o'i chymharu â mis 5 ble roedd gorwariant o £0.879 miliwn. Fel yr adroddwyd i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2017, mae'r rhagamcanion cydbwyso yn cydnabod yr anghydbwysedd yn y cynllun. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio i gael cyllideb gytbwys drwy wneud y canlynol:

- gwario llai ar staff asiantaeth;
- cynnal y lefelau o danwario ar gostau iechyd rheolaidd;
- lleihau costau gofal sylfaenol;
- edrych unwaith eto ar y fantolen i weld a oes cyfleoedd pellach i arbed arian.

83 Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da o ran cyrraedd ei dargedau arbedion ar gyfer y flwyddyn ond mae'n ddibynnol ar arbedion nad ydynt eto wedi eu hadnabod ac ar enillion cyfrifyddu er mwyn cael cyllideb gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn. Er hyn, dywed y Bwrdd Iechyd ei fod yn ffyddiog y bydd yn cyflawni'r gofynion a nodir yn Neddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella'r ffordd y mae'n mynd ati i gynllunio a chyflawni cynlluniau arbedion ac yn cydnabod y bydd angen seilio arbedion ar newidiadau mwy trawsffurfiol yn y gwasanaeth er mwyn mynd i'r afael â heriau ariannol y dyfodol

84 Yn dilyn cyfnod o newid yn swydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn ystod 2015 a 2016, bu'r Cyfarwyddwr Cyllid presennol yn ei swydd ers mis Hydref 2016 ac wedi dod â sefydlogrwydd i'r broses gynllunio ariannol ynghyd â chryfhau trefniadau. Rhoddodd yr adroddiad archwilio mewnol ynglŷn â'r Rhaglen Cynllunio Ariannol a Gwella Costau, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017, ddyfarniad o sicrwydd rhesymol. Dangosodd adroddiad dilynol, ynglŷn â Chynllunio Ariannol, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017, fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwelliannau ym mhob maes o gynllunio ariannol ac fe roddwyd dyfarniad o sicrwydd rhesymol i'r trefniadau.

85 Y Cyfarwyddwr Cyllid a ThG ddyluniodd y targedau arbedion ar gyfer cynllun ariannol 2017-18. Mae'r ffigurau y seiliwyd y targedau arnynt yn deillio o'r canolbwynt rhwng cyflawniad hanesyddol y GIG yn y blynyddoedd diwethaf a'r 1.5% y nodwyd ei bod yn ofynnol yn adroddiad diweddar y Sefydliad Iechyd. Rhoddwyd i dasg i bob cyfarwyddiaeth arbed 1.5%, ac eithrio cyllidebau tâl gwasanaethau darparu, yr oedd gofyn iddynt arbed 0.75%.

86 Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd adroddiad ynglŷn â chynlluniau arbedion ym mis Medi 2017 a oedd yn egluro'n fanwl sut y byddai'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati i osod targedau arbed yn y sefydliad. Mae'r adroddiad yn egluro sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio â sefydliadau eraill GIG Cymru er mwyn rhannu syniadau, arloesedd a phrofiadau yn yr ystod amrywiol wasanaethau gyda'r bwriad o gyflawni arbedion mwy effeithlon. Mae'r arbedion a ganfuwyd drwy'r broses hon yn amrywio o 0.7% i 2.9%, gyda tharged Powys yn 1.1%. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi amcangyfrif y gellid arbed cyfanswm o £10 miliwn dros y cyfnod tair blynedd sydd ar ddod (cyfartaledd o1.3% y flwyddyn) yn yr ystod gyflawn o wasanaethau sydd wedi eu rhannu rhwng gofal cymunedol a sylfaenol a gwasanaethau wedi eu comisiynu.

87 Mae’r broses cynllunio arbedion wedi ei hintegreiddio’n llwyr â’r broses IMTP ac felly mae cynlluniau arbedion yn gydnaws â’r risgiau a’r amcanion a nodir yn yr IMTP. Mae gofyn i bob cyfarwyddiaeth ddychwelyd IMTP sy’n amlinellu risgiau a chynlluniau arbedion yn fanwl. Mae cynlluniau arbedion wedi eu datblygu yn rhan o’r broses IMTP gan gynnwys swyddogion o wahanol adrannau yn sicrhau y caiff y cydbwysedd a’r lefel briodol o adnoddau eu hystyried a’u darparu yn unol â’r cyfyngiadau sydd ar adnoddau presennol y Bwrdd Iechyd.

88 Mae’r Cyfarwyddwr Cyllid a ThG yn cydnabod y budd o ddechrau’r broses gynllunio yn gynnar er mwyn datblygu cynlluniau arbedion. Dechreuodd proses gynllunio 2017-18 yn fuan wedi iddo gyrraedd y Bwrdd Iechyd ym mis Tachwedd 2016. Roedd adroddiad i’r Bwrdd ym mis Ionawr yn 2017 yn egluro’r dyraniad cyllid ar gyfer 2017-18 a’r gofynion o ran arbed arian. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19 mae’r Cyfarwyddwr Cyllid a ThG wedi dod â’r broses gynllunio ymlaen i fis Hydref 2017 er mwyn rhoi mwy o amser i bartneriaid busnes a deilwyr cyllidebau ystyried a datblygu’r cynlluniau arbedion sy’n angenrheidiol er mwyn cyflawni’r targedau o ran arbed arian. Buom yn dystion i’r drafodaeth ynghylch hyn yn y cyfarfod Adolygu Cyflawniad y Cynllun Ariannol misol ym mis Hydref 2017.

89 Yn rhan o’r broses cynllunio ariannol mae’r Cyfarwyddwr Cyllid a ThG a’r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol yn asesu faint o arbedion sydd angen eu gwneud ar y cyfan er mwyn cydbwyso’r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff pob adran wedyn darged ar ffurf y ganran o arbedion y mae’n rhaid iddynt eu cyflawni, sy’n seiliedig ar dwf arfaethedig yr adran a’r gyfran o’r dyraniad tâl. Mae modd i’r canran gytunedig felly amrywio o un adran i’r llall. Mae’r cynllun arbedion yn amlygu cynnig ar gyfer ymhle y gellir gwneud yr arbedion. Edrychir ar yr ymagwedd hon wedyn o safbwynt y waelodlin sy’n rhoi mwy o hyblygrwydd i ddeiliaid y gyllideb gyflawni’r canlyniadau dymunol ar draws meysydd gwahanol os oes angen.

90 Un enghraifft o’r dull mwy trawsffurfiol hwn yw pan fo’r Bwrdd Iechyd wedi cydweithio gyda Meddygon Teulu i ganfod cyfleoedd ychwanegol i gyflawni arbedion a gwneud pethau’n fwy effeithlon. Oherwydd y cydweithio hwn, mae’r Bwrdd Iechyd a Meddygol Teulu yn ne Powys wedi buddsoddi ar y cyd mewn Cwmni Buddiannau Cymunedol. Un prosiect yw tynnu’n ôl y buddsoddiad yn yr hen gynllun cymhell effeithlonrwydd, ble cai Meddygon Teulu eu cymell i newid arferion wrth roi presgripsiwn, a chyflogi fferyllwyr i ddarparu gwasanaethau cefnogi i feddygfeydd teulu yn rhan ddeheuol Powys. Mae wedi dod â buddiannau yn ei sgil megis adolygiadau mwy rheolaidd o arferion meddygon teulu wrth lunio presgripsiynau, ynghyd a pharhau i chwilio am gyfleoedd yn y dyfodol. Oherwydd bod y fferyllwyr yn gweithio gyda phob meddygfa deulu yn yr ardal, daw hyn â mwy o effeithlonrwydd i’r broses.


91 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod bod monitro gofynion ei weithlu, yn enwedig wrth ystyried yr angen i gael staff dros dro, yn allweddol er mwyn gwneud arbedion. Yng ngoleuni hyn mae’r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Uned Staffio Dros Dro ble caiff unrhyw geisiadau am staff dros dro eu cyflwyno i’r Uned sy’n asesu’r ffynhonnell staff fwyaf costeffeithiol.

92 Agwedd arall o newid trawsffurfiol yw chwilio am ffyrdd i’r Bwrdd Iechyd gyflwyno cymorth meddygol mwy effeithiol er mwyn osgoi derbyniadau brys i wasanaethau acíwt sy’n gallu bod yn ddrud. Bu’r wardiau rhithwir ar waith yn ne Powys ers 2012 ac maent yn gweithio drwy gyflogi staff meddygol yn lleol er mwyn rhoi cymorth a chyngor meddygol fel modd o atal derbyniadau diangen. Yn ystod 2016-17, bu i’r bwrdd nodi cyfle i gael ward rithwir yn yr ardal ogleddol ar gyfer gogledd a chanolbarth Powys, ac aethpwyd ati i wireddu hynny. Mae ward rithwir de Powys wedi dangos bod modd lleihau 12% ar nifer y trosglwyddiadau i ysbytai am ofal heb ei drefnu a chynnal y niferoedd hynny. Mae

dadansoddiad o drosglwyddiadau gofal heb ei drefnu yng ngogledd Powys wedi dangos bod y perfformiad gwaelodlin yn wahanol felly gosodwyd targed i'w leihau 11%. Targed gwella costau yn ystod y flwyddyn y ward rithwir ar gyfer 2017-18 yw £0.430m ac mae disgwyl i hynny gael ei gyflawni yn ei gyfanrwydd.

93 Wrth lunio cynlluniau arbedion, mae hi'n bwysig ystyried y cydbwysedd rhwng cynlluniau arbedion cylchol ac anghylchol ac effaith yr arbedion hynny. Dylai rhoi mwy o bwyslais ar gynlluniau cylchol wneud pwysau cyllidebol yn llai yn y blynyddoedd dilynol. Mae Dadansoddiad 5 bod 70% o'r cynlluniau arbedion a nodwyd yn 2016-17yn ymwneud ag arbedion cylchol ac i'r canran hwn gynyddu i 82% yn 2017-18. Mae'r cynnydd hwn yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn ceisio rhoi newidiadau mwy trawsffurfiol ar waith fydd yn cefnogi ei strategaeth hirdymor.

Arddangosyn 5: dadansoddiad o gynlluniau arbedion cylchol ac anghylchol a nodwyd.




Ffynhonnell: Cynlluniau arbedion 2016-17 ac 2017-18 gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys

94 Fel y nodwyd uchod, mae'r IMTP ar gyfer 2017-20 yn amlinellu bwlch sylfaenol ble mae angen gwneud arbedion ychwanegol. Ymhellach, mae'r IMTP yn cydnabod y bydd angen cynlluniau arbedion ar lefelau cyffelyb ar gyfer pob blwyddyn hyd at 2019-2020 i sicrhau cydbwysedd cyllidol. Ar wahân i'r heriau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu wrth gyflawni arbedion y flwyddyn gyfredol, mae risg na fydd arbedion yn y dyfodol yn ddigonol nac yn gyraeddadwy er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch sylfaenol heb wneud newidiadau trawsffurfiol ehangach yn y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau. Mae hyn yn her benodol ar gyfer y Bwrdd Iechyd oherwydd ei fod yn comisiynu 75% o'i wasanaethau gan ddarparwyr eraill lle nad yw'n rheoli'r gwasanaeth. Mae gwaith wedi ei wneud gyda'r tîm comisiynu i gryfhau'r cytundebau sydd gan y Bwrdd Iechyd gyda'r sefydliadau hyn ac maent yn datblygu dealltwriaeth o'r gwasanaethau y mae arnynt eisiau eu comisiynu yn y dyfodol yn rhan o'u cynllunio mwy hirdymor.

95 Mae datblygu cynlluniau arbedion yn broses ar y cyd sy'n cynnwys rheolwyr lleol, partneriaid busnes a staff eraill yn ôl yr angen. Wrth wraidd hyn mae dogfen cychwyn prosiect sy'n rhoi amlinelliad manwl o bob prosiect. Rydym ni wedi adolygu enghreifftiau o ddogfennau cychwyn prosiect ac yn nodi bod y meysydd canlynol yn cael eu hystyried:

- asesiad yn unol ag amcanion y Bwrdd Iechyd
- asesiad yn unol â'r egwyddorion iechyd darbodus
- cefndir, amcanion a rhagdybiaethau'r prosiect, gan gynnwys amcanion CAMPUS
- canlyniadau disgwyliedig y prosiect a chysylltiadau â phrosiectau eraill
- yr anghenion o ran adnoddau, yn enwedig o ran y gweithlu
- asesiadau effaith ansawdd a chydraddoldeb
- ymgysylltiad a rheoli rhanddeiliaid
- manteision ariannol ac anarianol wedi eu proffilio
- cerrig milltir a phwyntiau gweithredu'r prosiect
- asesu risg

96 Cofnodir asesiad risg yn y lle cyntaf yn rhan o'r ddogfen cychwyn prosiect ond caiff ei ddiweddaru'n rheolaidd gan y parter busnes a'r rheolwr ardal a'i ymgorffori i'r broses monitro ac adrodd rheolaidd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dull asesiad risg Cymru gyfan sy'n cynnwys dyfarniad coch, oren neu wyrdd. Caiff y dyfarniadau hyn eu defnyddio'n gyson ym mhob prosiect. Fel y nodwyd yn Arddangosyn 4, ceir sgôr wyrdd ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynlluniau ac ni cheir sgôr goch. Yn seiliedig ar ein gwybodaeth o gynlluniau ac adroddiadau perfformiad, mae hi'n rhesymol dod i'r casgliad y caiff y dyfarniadau eu defnyddio'n briodol iawn.

97 Wrth broffilio cynlluniau arbedion mae hi'n bwysig sicrhau bod gwerth yr arbedion nid yn unig yn realistig ond bod amseriad yr arbedion hynny hefyd yn realistig. Mae hi'n braf gweld yn rhan o'r broses o lunio dogfen cychwyn prosiect fod y Bwrdd Iechyd yn ystyried amseriad yr arbedion fel y rhoddir disgwyliadau rhesymol ar y bobl hynny sy'n gyfrifol am eu cyflawni. Sylwn fod proffil yr arbedion drwy'r flwyddyn yn weddol gyson er bod enghreifftiau, fel yn achos y ward rithwir, pan fo'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno'r arbedion yn raddol ar ôl y chwarter cyntaf i gydnabod yr amser a gymerir i sefydlu'r cynllun arbedion.

98 Ble bynnag y bo hi'n bosibl, mae hi hefyd yn bwysig i'r Bwrdd Iechyd gael darlun aml-flwyddyn o arbedion ac nid i ganolbwyntio'n unig ar arbedion tymor byr. O'n hadolygiad o'r dogfennau cychwyn prosiect, mae hi eto yn dda gweld bod rhai prosiectau ble mae'r Bwrdd yn ystyried y canlyniad a'r arbedion yn fwy hirdymor. Enghraifft o hyn yw'r ward rithwir sy'n brosiect tair blynedd.

99 Nid yw ein trafodaethau â'r rheolwyr wedi nodi unrhyw gynlluniau sydd wedi cael effaith niweidiol ar y gwasanaeth a ddarperir nac ar ddiogelwch cleifion. Yn wir, mae rhai o'r cynlluniau a roddwyd ar waith yn awgrymu y bu gwelliant yn narpariaeth gwasanaethau a gofal cleifion. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys y ward rithwir a'r buddsoddiad yn y gwasanaeth rhiwmatoleg.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei system ar gyfer monitro arbedion ariannol yn effeithiol ac fe roddir hwn ar brawf pan ddaw cynllunio arbedion ariannol yn fwy uchelgeisiol yn y dyfodol

100 Fel y nodwyd uchod, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi dyfarniad o goch, oren neu wyrdd ar gyfer pob cynllun yn seiliedig ar ddiffiniadau Cymru gyfan. Caiff pob cynllun a'i ddyfarniad ei fonitro'n anffurfiol yn feunyddiol gan y partneriaid busnes a'r rheolwyr lleol ond hefyd yn fisol a chwarterol. O'r herwydd mae hyn yn rhoi digonedd o rybudd ymlaen llaw ynglŷn â chynlluniau peryglus fel y gellir unioni hynny. Mae'r ardaloedd hefyd yn cwrdd â rhanddeiliaid allanol yn rheolaidd drwy'r flwyddyn, yn enwedig Meddygon Teulu a darparwyr gwasanaethau eraill i sicrhau bod y cynlluniau arbedion y maen nhw'n arwain arnynt yn datblygu yn ôl y disgwyl.

101 Yn lleol, mae pob ardal yn cyfarfod yn fisol ac yn trafod cynlluniau arbedion ac yn cytuno ar bwyntiau gweithredu fel y bo'n briodol. Mae'r rheolwr ardal cyffredinol, y partner busnes cyllid a staff eraill yr ardaloedd yn mynd i'r cyfarfodydd hyn fel y bo angen. Ceir cyfarfodydd prosiect a galwadau ffôn anffurfiol rhwng staff yr ardaloedd a phartneriaid busnes cyllid yn feunyddiol.

102 Y prif fforwm gweithredol lle trafodir cynlluniau risg ac arbedion, yw'r cyfarfod tîm Adolygu Cyflawniad y Cynllun Ariannol. Yn y cyfarfod hwn mae gofyn i bob partner busnes roi diweddariad i'r Cyfarwyddwr Cyllid a ThG ynglŷn â chynnydd pob cynllun gan gynnwys y dyfarniad risg. Gwelsom hyn yng nghyfarfod mis Hydref 2017. Roedd digon o amser i drafod cynlluniau a oedd wedi cael dyfarniad oren (doedd dim cynlluniau wedi cael dyfarniad coch), tynnu sylw at y problemau ac ystyried beth oedd angen ei wneud i unioni hynny. Ym mhob achos, roedd y Cyfarwyddwr Cyllid a ThG yn eglur yn crynhoi'r gwaith a oedd ei angen, ac mewn rhai achosion, gofynodd i gael gwybodaeth ychwanegol yn y cyfarfod dilynol. Ymhellach, rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid a ThG gyfarwyddyd clir, pe na byddai'n bosibl adfer y sefyllfa, byddai angen dod o hyd i ffyrdd eraill o wneud hynny. Yn y Grŵp Cyflawni a Pherfformiad mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn craffu ar yr arbedion.

103 Y Pwyllgor Perfformiad a Chynllunio Ariannol yw is-bwyllgor y Bwrdd sy'n craffu ar gynlluniau cyllid ac arbedion. Fodd bynnag, nid yw manylder yr adroddiadau a gyflwynir i'r pwyllgor ac i'r Bwrdd ar y cynlluniau unigol yn gyffredinol ar lefel ardal/themâu trawsadrannol, yn ddigonol i ganiatáu ar gyfer craffu trylwyr. Yn ymateb i gais Aelodau Annibynnol am wybodaeth ychwanegol, cyflwynodd y Weithrediaeth bapur ym mhwyllgor mis Medi 2017 a oedd yn amlinellu newidiadau i'r broses adrodd. Roedd y papur yn cynnwys rhestr fanwl o gynnydd mewn cysylltiad â'r holl gynlluniau arbedion i'w darparu ym mhob cyfarfod yn y dyfodol. Ym mhob cyfarfod mae un o'r rheolwyr ardal (neu swyddog gyfatebol) yn rhoi cyflwyniad ar eu cynlluniau arbedion ac yn ateb cwestiynau'r aelodau. Diben y newid hwn yw cyflwyno haen ychwanegol o graffu, a rhoi cyfle i staff y tîm gweithredol ac aelodau holi ynghylch yr hyn sy'n cael ei wneud er mwyn adfer y cynlluniau. Er nad yw effeithiolrwydd hyn wedi ei asesu'n llawn eto, mae hi'n rhesymol dod i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod craffu rheolaidd a digonol yn digwydd ym mhob haen o'r sefydliad.

104 Gwnaed y cyflwyniad cyntaf, ym mis Tachwedd 2017, gan reolwyr o'r ardal ogleddol ac o'r gwasanaethau menywod a phlant. Clywodd y pwyllgor y dechreuwyd ar y gwaith o gynllunio arbedion ym mis Ionawr 2017 ac y cefnogwyd hyn gan fethodoleg ddadansoddol, gan ystyried gwybodaeth ynglŷn â chost a meincnodi cymharol. Cytunodd yr ardal ogleddol i ganolbwyntio'u hymdrechion ar y canlynol:

- adolygu pecynnau gofal ar gyfer plant ac oedolion sy'n cael gofal iechyd parhaus;
- osgoi derbyniadau ar gyfer gwasanaethau wedi eu comisiynu, yn bennaf drwy gyfrwng y ward rithwir;
- trafod a herio taliadau amhriodol am wasanaethau a ddarperir o dan gytundeb gan Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai yr Amwythig a Telford;
- rhoi meddyginiaeth ar bresgripsiwn; a
- costau cyflog a chostau nad ydynt yn gyflog mewn gwasanaethau a ddarperir drwy leihau faint a gaiff ei wario ar asiantaethau a pharu faint o wlâu sydd ar gael â'r gweithlu parhaol sydd ar gael.

105 Gofynodd y pwyllgor nifer o gwestiynau er mwyn cael sicrwydd ynglŷn â'r rhaglen rheoli meddyginiaethau, y ward rithwir, heriau ynglŷn â lleihau gwariant ar staff asiantaeth, a sut y mae'r ardaloedd yn cydweithio. Roedden nhw'n fodlon â'r wybodaeth a ddarparwyd ac fe wnaethant gadarnhau eu bod yn edrych ymlaen at barhau â'r lefel gynyddol hon o ddiogelwch yn ystod y flwyddyn sydd o'u blaenau. Cafodd y pwyllgor adroddiad hefyd ynglŷn â'r ymarferiad pennu cyllideb ar gyfer 2018-19 a'r ddwy flynedd ddilynol, gan roi dealltwriaeth iddyn nhw o'r prosesau ar gyfer pennu cyllidebau yn seiliedig ar ddadansoddi pwysau cost a phrofi rhagdybiaethau ariannol presennol ar gyfer 2018-19.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol ynglŷn â chynllunio ac adrodd ariannol

106 Yn 2016 gwnaethom yr argymhellion canlynol o ran rheoli ariannol. Mae Dadansoddiad 6 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed mewn cysylltiad â'r wyth gweithred unigol. Mae pedwar argymhelliad wedi eu cwblhau. Maen nhw'n ymwneud â'r broses o gadarnau'r gyllideb; datblygu cynlluniau arbedion; y trefniadau ar gyfer stiwardiaeth a rheolaeth ariannol; a threfniadau ar gyfer monitro ac adrodd ynglŷn â llwyddo i wneud arbedion. Mae un argymhelliad, ynglŷn â diweddaru rheolau sefydlog a chyfarwyddiadau ariannol sefydlog wedi ei gwblhau'n rhannol; mae'r rheolau sefydlog wedi eu diweddaru ond mae'r gwaith o ddiweddaru'r cyfarwyddiadau ariannol sefydlog yn dal i fod ar y gweill.

107 Mae cynnydd da yn cael ei wneud o ran tri argymhelliad ond nid ydynt wedi eu cwblhau eto. Maen nhw'n ymwneud â: rhoi trefniadau cynllunio olyniaethol ar waith yn y gyfarwyddiaeth ariannol; ailflaenoriaethu'r gyllideb fel ei bod yn fwy cydnaws â strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd; a chryfhau'r dystiolaeth fel y rhoddir ystyriaeth lawn i'r effaith ar y gweithlu, cyllid, ystadau a ThG wrth ddatblygu'r cynlluniau cyflawni yn rhan o'r IMTP.

Arddagosyn 6: cynnydd ar argymhellion rheolaeth ariannol 2016

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **A1a**<br>Cryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer cynllunio ariannol drwy roi trefniadau cynllunio olyniaethol ar waith, wedi eu hategu gan broses gadarn o werthuso sgiliau a dadansoddi unrhyw fannau gwan mewn galluoedd allweddol y staff hynny y gall fod angen iddyn nhw ysgwyddo cyfrifoldebau dirprwyol mewn adegau o absenoldeb. | **Yn gwneud cynnydd da â'r argymhelliad ond heb ei gyflawni eto**<br>Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid a ThG wedi cwblhau gwerthusiad o sgiliau a swyddi gwag posibl yn yr adran gyllid dros y flwyddyn neu ddwy nesaf. Mae'n gweithio'n agos gydag Academi Gyllid GIG Cymru i ddatblygu pobl ddawnus y dyfodol yn y GIG ar gyfer swyddi uwch. Mae'n gobeithio penodi rhywun i lewni'r bwlch a adewir ar ôl y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid presennol sydd i fod i ymddeol ym mis Mawrth 2018 drwy ddefnyddio'r fenter meithrin doniau, gan fentora rhywun i roi dealltwriaeth iddyn nhw o swyddogaeth y Cyfarwyddwr Cyllid, gan gynnwys gweithio ar lefel y Bwrdd. Nid oedd neb wedi eu penodi ar gyfer y swyddogaeth hon eto. |
| **A1b**<br>Cryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer cynllunio ariannol drwy adolygu trefniadau cymeradwyo cyllidebau, gan sicrhau y ceir cadarnhad a sêl bendith ffurfiol ar yr adeg gywir o'r broses. | **Argymhelliad wedi ei gwblhau**<br>Cafodd y dyraniadau cyllideb eu cymeradwyo gan aelodau o'r Tîm Rheoli Gweithredol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad drwy gytundeb Cynllun Adnoddau 2017-18.<br>Fodd bynnag, sylwasom, yn ôl Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd, fod angen i benaethiaid y cyfarwyddiaethau gadarnhau eu bod wedi cael eu dyraniadau cyllid, a'u bod yn derbyn hynny gyda'r cyfrifoldebau cysylltiedig, drwy ddychwelyd derbyneb wedi ei llofnodi o fewn 28 diwrnod o gael y hysbysiad gan y Prif Weithredwr. Ar gyfer 2017-18 nid oedd pob llythyr wedi ei lofnodi o fewn y terfyn amser hwn. Sylwyd ac adroddwyd ynghylch y mater hwn yn yr archwiliad mewnol.<br>Fodd bynnag, rydym ni wedi dod i'r casgliad fod y risg hon wedi ei lliniaru oherwydd bod y dyraniadau cyllid wedi eu cymeradwyo yn rhan o gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a thrafodaethau ynglŷn â'r Cynllun Adnoddau. Mae pob aelod o staff gweithredol bellach wedi dychwelyd llythyrau wedi eu llofnodi ar gyfer eu meysydd cyfrifoldeb. |

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o’r cynnydd |
| --- | --- |
| **A1c**<br>Cryfhau’r trefniadau presennol ar gyfer cynllunio ariannol drwy adolygu’r broses sydd ar waith ar gyfer datblygu’r cynlluniau arbedion, gan sicrhau ar yr un pryd bod y cynlluniau manwl yn cefnogi strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd. | **Argymhelliad wedi ei gwblhau**<br>Mae’r broses ar gyfer datblygu cynlluniau arbedion wedi ei chryfhau yn sylweddol yn 2017-18 ac wedi ei dwyn ymlaen i 2018-19 fel yr eglurir ym mhrif ran yr adroddiad hwn. |
| **A1d**<br>Cryfhau’r trefniadau presennol ar gyfer cynllunio ariannol drwy ailflaenoriaethu’r gyllideb fel ei bod yn fwy cydnaws â strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd. | **Yn gwneud cynnydd da â’r argymhelliad ond heb ei gyflawni eto**<br>Cymeradwywyd Strategaeth Iechyd a Gofal Powys gan y Brwdd ar 22 Mawrth 2017.<br>Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethu cyllideb y Bwrdd Iechyd yn rhan o’r broses sy’n cael ei gweithredu i ddatblygu IMTP 2018-21. Bydd y gwaith i ddatblygu Strategaeth Iechyd a Gofal Powys, a phrosesau risg a sicrwydd y Bwrdd Iechyd, yn sail i’r gwaith hwn.<br>Felly, bydd yr argymhelliad hwn yn parhau. |
| **A1e**<br>Cryfhau’r trefniadau presennol ar gyfer cynllunio ariannol drwy gryfhau’r dystiolaeth fel y rhoddir ystyriaeth drylwyr i’r effaith ar y gweithlu, cyllid, ystadau a ThGCh wrth ddatblygu’r cynlluniau cyflawni a rhoi manylion ar gyfer pob un o’r agweddau hyn yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. | **Yn gwneud cynnydd da â’r argymhelliad ond heb ei gyflawni eto**<br>Ni chaiff yr effaith ar y gweithlu, TGCh, cyllid ac ystadau ei hystyried yn ffurfiol yn rhan o'r IMTP cymaeradwy. Mae ein hadolygiad wedi dangos bod sawl enghraifft yn dal i fodoli ble nodir y goblygiadau cyllidol fel ‘Canfod cyllid i gefnogi’r adnoddau angenrheidiol’, sy’n dangos nad yw cynlluniau cyflawni gwasanaethau wedi eu seilio ar ddadansoddi ariannol trylwyr a bod angen datblygu pellach. |
| **A2a**<br>Cryfhau’r trefniadau presennol ar gyfer cynllunio a stiwardiaeth ariannol drwy sicrhau y caiff Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog eu hadolygu a’u diweddaru’n achlysurol. | **Argymhelliad wedi ei gwblhau’n rhannol**<br>Cymeradwywyd Rheolau Sefydlog wedi eu diwygio a’u cryfhau a Chynllun Neilltuo a Dirprwyo gan y Bwrdd ar 25 Ionawr 2017. Mae amod bellach bod yn rhaid adolygu’r rhain yn flynyddol. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd wedi gweithio gyda grŵp Ysgrifenyddion Bwrdd Cymru gyfan i ddiweddaru’r Rheolau Sefydlog enghreifftiol sydd wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.<br>Mae’r Cyfarwyddwr Cyllid a ThG yn gweithio i ddiweddaru’r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ynghyd â Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Cymru gyfan. |

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **A2b**<br>Cryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer cynllunio a stiwardiaeth ariannol drwy adolygu'r sefyllfa o ran rheolaeth ariannol i sicrhau bod prosesau priodol ar waith ac y cydymffurfir â nhw. | **Argymhelliad wedi ei gwblhau**<br>Mae'r gyfarwyddiaeth gyllid yn dal i weithio gyda thimau gweithredol a chorfforaethol er mwyn rhoi canllawiau a herio ble bo angen mewn materion ariannol. Mae'r gyfarwyddiaeth gyllid wedi bod yn mynd i'r afael â'r materion a ddaeth i'r amlwg yn yr adroddiadau archwilio mewnol sicrwydd cyfyngedig a dderbyniwyd yn 2016-17, gyda gwelliannau i'w gweld yn adroddiadau'r Cyfriflyfr Cyffredinol a Chynllunio Ariannol, sydd wedi eu hasesu bellach yn 2017-18. Cafodd y naill ddyfarniad sylweddol a'r llall ddyfarniad rhesymol.<br>Mae canllaw caffael canolog wedi ei ddrafftio ac mae disgwyl y bydd wedi ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn galendr. Mae'r canllaw yn rhestru cyfrifoldebau staff y Bwrdd Iechyd a'r ymwneud angenrheidiol â gwasanaeth caffael Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Bydd y canllaw'n gweithio ochr yn ochr â'r canllaw 'Prynu Nwyddau a Gwasanaethau' sydd ar y gyriant cyfrannol ar hyn o bryd. |
| **A3**<br>Cryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer monitro ac adrodd ariannol drwy wella sut yr eir ati i adrodd ar gyflawniad y cynlluniau arbedion. | **Argymhelliad wedi ei gwblhau**<br>Mae'r trefniadau ar gyfer monitro ariannol ac adrodd ar gyflawniad y cynlluniau arbedion wedi eu cryfhau yn arw. Gofynodd y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad am wybodaeth bellach er mwyn rhoi sicrwydd o ran yr ardaloedd. Cyflwynodd ardal y gogledd y sesiwn gyntaf ym mis Tachwedd 2017. |

## Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio a llywodraethu yn gadarn ar y cyfan ac mae gwaith yn parhau i gefnogi cydnerthedd y sefydliad ac i gryfhau llywodraethu gwybodaeth

108 Mae ein gwaith asesu strwythuredig yn 2017 wedi archwilio trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer llywodraethu a defnyddio adnoddau yn y meysydd canlynol: cynllunio strategol, effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgorau a dulliau rheoli mewnol, strwythur trefniadaethol, fframweithiau rheoli risg a sicrwydd, trefniadau i reoli'r gweithlu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, trefniadau rheoli perfformiad, llywodraethu gwybodaeth a TGCh a thechnoleg. Rydym hefyd wedi asesu'r cynnydd o'i gymharu ag argymhellion a wnaed yn 2016. Nodir ein canfyddiadau isod.

### Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun tymor canolig integredig ac, ar y cyd â Chyngor Sir Powys, Strategaeth Iechyd a Gofal tymor hirach y cytunwyd arni, ond mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu'r cynlluniau sy'n sail iddi

109 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o ddull y Bwrdd Iechyd o gynllunio strategol a'r trefniadau sy'n cefnogi cyflawniad rhaglenni newid strategol sy'n sail i'r IMTP. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

110 Mae gan y Bwrdd Iechyd IMTP a gymeradwywyd gan y Bwrdd a Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-20. Hon yw'r drydedd flwyddyn yn olynol y mae IMTP wedi'i gymeradwyo. Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth sefydledig, chwe nod strategol a 12 amcan sydd wedi bod ar waith ers rhai blynyddoedd ac nad ydynt wedi'u newid ar gyfer IMTP 2017-20.

111 Rhannwyd y broses ar gyfer datblygu'r IMTP wedi'i adnewyddu ar gyfer 2017-20 mewn dogfen a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad ym mis Mawrth 2017. Datblygwyd yr IMTP drafft gan y Bwrdd drwy gyfres o sesiynau datblygu ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd ar 25 Ionawr 2017. Cyflwynwyd y drafft i Lywodraeth Cymru ar 27 Ionawr. Rhoddodd Llywodraeth Cymru sylwadau ar y drafft ac yna fe'i diwygiwyd a chymeradwywyd yr IMTP terfynol gan y Bwrdd ar 22 Mawrth 2017, yn amodol ar fân ddiwygiadau, ac fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar 31 Mawrth yn unol â'r gofynion. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru yr IMTP ar 14 Mehefin 2017 gydag ychydig o amodau.

112 Yn y blynyddoedd blaenorol, datblygwyd cynlluniau darparu gwasanaethau ar wahân i'r IMTP ac maent wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad i graffu arnynt. Roedd Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar gyfer 2017/20 yn nodi bod prosesau y cynllun cyflawni wedi eu symleiddio; nid oes gofyniad erbyn hyn i gyflwyno cynlluniau cyflawni lleol i Lywodraeth Cymru er ei bod yn parhau i fod yn ofynnol i sefydliadau gynllunio ar gyfer y gwasanaethau pwysig hyn ac adlewyrchu'r meysydd allweddol o welliannau arfaethedig yn eu cynlluniau tair blynedd.

113 Roedd yr adolygiad archwilio mewnol o drefniadau rheoli perfformiad y Bwrdd Iechyd i gyflawni'r IMTP yn rhoi sicrwydd rhesymol ar y cyfan. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 9 Mai 2017 a nododd y pwyllgor bod yr adroddiad yn amlygu'r angen am ragor o fireinio a gwella'r cynlluniau sy'n sail i'r trefniadau. Yn ymateb y rheolwyr i'r adroddiad archwilio mewnol ar yr IMTP, nodwyd y byddent yn ceisio sicrwydd ar ddatblygiad cynlluniau i gyflawni blaenoriaethau sefydliadol yn rhan o'r adolygiad dilynol. Ar ben hynny, ystyrir cryfhau datblygiad y cynlluniau yn rhan o broses

ddatblygu cynlluniau'r cyfarwyddiaethau ar gyfer 2018-19. Mae adolygiad dilynol o broses o ddatblygu'r IMTP ar waith ar hyn o bryd gan yr archwilwyr mewnol.

114 Yn 175 o dudalennau o hyd, roedd yr IMTP ar gyfer 2017-20 yn sylweddol llai na'r IMTP ar gyfer 2016-19 a oedd yn fwy na 300 o dudalennau o hyd. Er y paratowyd dau grynodeb hawdd eu darllen o'r cynllun blynyddol ar gyfer rhanddeiliaid a staff yn 2016, penderfynodd y Bwrdd Iechyd bod fersiwn unigol yn ddigon ar gyfer pob cynulleidfa yn 2017. Mae modd y Bwrdd Iechyd o gyfathrebu ei gynlluniau wedi gwella drwy gynhyrchu'r fersiwn hwylus hon sy'n rhoi crynodeb hawdd ei ddarllen, ac mae ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd. Mae'r ddealltwriaeth o'r strategaeth wedi gwella'n sylweddol yn ôl canlyniadau arolwg staff GIG y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016, sy'n dangos cynnydd i 58% yn yr ymwybyddiaeth o amcanion hirdymor y sefydliad, i fyny o 39% yn 2013.

115 Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys yn bartneriaeth strategol statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys y Cyngor, y Bwrdd Iechyd, y gwasanaeth tân ac achub a Cyfoeth Naturiol Cymru ac roedd yn disodli'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a sefydlwyd ym mis Ebrill 2016. Mae gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Asesiad Llesiant Powys sydd wedi ei gymeradwyo a'i gyhoeddi ac mae'r Weledigaeth Llesiant hyd at 2040 mewn cyfnod ymgynghori ar hyn o bryd. Mae'r Cynllun Llesiant i'w gyhoeddi ym mis Mai 2018 a bydd yn disodli'r Cynllun Un Powys presennol. Un o'r pedwar amcan lleol yw y bydd pobl ym Mhowys yn iach, wedi'u cymell yn gymdeithasol ac yn gyfrifol. Mae hyn yn gysylltiedig â'r Strategaeth Iechyd a Gofal sef y cyfrwng ar gyfer datblygu gwasanaethau iechyd a gofal yn y tymor canolig hyd at 2027.

116 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn rhan o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys a sefydlwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Ei swyddogaeth allweddol yw nodi meysydd allweddol o welliant ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth ym Mhowys. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cael y dasg gyfreithiol o nodi cyfleoedd i integreiddio gofal cymdeithasol ac iechyd.

117 Mae'r Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r Cyngor a rhanddeiliaid eraill, wedi datblygu Strategaeth Iechyd a Gofal deng mlynedd drwy ymgysylltu â'r cyhoedd ac mae wedi'i strwythuro ar yr amcanion llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r strategaeth yn cynnwys gweledigaeth ar gyfer iechyd a gofal ym Mhowys, hyd at 2027 a thu hwnt. Er nad yw'r strategaeth yn disgrifio manylion y datblygiadau ar hyn o bryd, mae'n amlinellu'r cyfeiriad arfaethedig ar gyfer y dyfodol: hybu llesiant; cynnig cymorth a chefnogaeth yn gynnar i bobl; mynd i'r afael â'r pedwar afiechyd mawr sy'n cyfyngu ar fywyd; a darparu gofal cydgysylltiedig. Mae'r strategaeth yn amlinellu'r dyhead i ddarparu cymaint o ofal â phosibl ym Mhowys. Cymeradwyodd y Bwrdd y strategaeth ym mis Mawrth 2017 ac fe'i lansiwyd yn swyddogol ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r Bwrdd Iechyd yn haeddiannol falch o'r cyflawniad hwn, y strategaeth iechyd a gofal cyntaf ar y cyd yng Nghymru.

118 Mae Cam 2 o'r Strategaeth Iechyd a Gofal yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac mae swyddogion, clinigwyr a gweithwyr proffesiynol o'r ddau sefydliad yn llunio manylion y canlyniadau ar gyfer 2027, yn ogystal â'r mesurau uchelgais a sut y cânt eu cyflawni. Cynhelir digwyddiad ymgynghori â'r cyhoedd ym mis Rhagfyr 2017 ac yna ymgysylltiad cyhoeddus ehangach. Y bwriad yw y bydd y strategaeth yn cael ei chyflwyno ar gyfer ei hystyried gan Fwrdd y Bwrdd Iechyd a Chabinet y Cyngor ym mis Ionawr 2018.

119 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgysylltu'n sylweddol â rhanddeiliaid yn ystod y flwyddyn ar ddatblygiad y Strategaeth Iechyd a Gofal. Fodd bynnag, am nifer o flynyddoedd nid fu gan y Bwrdd Iechyd grŵp cyfeirio rhanddeiliaid, sy'n groes i'r rheolau sefydlog. Yn 2015, cymeradwywyd y strategaeth

ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac yn 2016 cytunwyd ar gylch gorchwyl ar gyfer y grŵp ac mae wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gytuno ar aelodaeth am fwy na 12 mis. Rhoddodd adroddiad archwilio mewnol ar ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Mai 2017, sgôr cyffredinol o sicrwydd rhesymol ond roedd yn codi pryderon ynghylch yr effaith ar y Bwrdd Iechyd o beidio â bod â grŵp cyfeirio rhanddeiliaid. Cynhaliodd y Bwrdd Iechyd weithdai cynllunio gyda rhanddeiliaid ym mis Hydref 2017 ac mae'n parhau i weithio tuag at sefydlu grŵp cyfeirio rhanddeiliaid ffurfiol, a chynhelir y cyfarfod cyntaf ym mis Ionawr 2018.

120 Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhan o'r rhaglenni newid strategol niferus sydd ar waith yn y sefydliadau y mae cleifion Powys yn eu defnyddio. Mae'r cyfranogiad hwn yn defnyddio adnoddau sylweddol y Bwrdd Iechyd ar lefel uwch. Mae'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad yn rheolaidd ar gynllunio strategol yn y gwasanaethau a gomisiynir, ac mae nifer o gyflwyniadau wedi bod ar y rhaglenni newid amrywiol sydd ar waith yn y gwasanaethau i ddarparwyr. Rhoddwyd rhagor o fanylion gan y tîm Future Fit a wnaeth gyflwyniad i'r Bwrdd ar yr Achos Busnes Cyn Ymgynghori a'r Broses Ymgynghori ar gyfer yr Amwythig a Telford ym mis Medi 2017. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol 14 wythnos o hyd ar y cynlluniau yn dechrau ar ôl cael cymeradwyaeth GIG Lloegr. Cynlluniau mawr eraill sy'n effeithio ar gleifion Powys yw datblygiad Canolfan Gofal Arbenigol a Chritigol newydd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a elwir yn The Grange erbyn hyn, a Chynllun Trawsnewid Cynaliadwyedd Henffordd a Chaerwrangon sy'n effeithio ar wasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Dyffryn Gwy.

121 Mae gan y Bwrdd Iechyd raglen cyfalaf y cytunwyd arni ar gyfer 2017-18 sy'n rhestru cynigion prosiect ac offer arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r IMTP. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu a chefnogi cynlluniau i ad-drefnu Prosiect Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol Ysbyty Llandrindod ac Ysbyty Machynlleth yn sylweddol.

122 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau diwygiedig ar gyfer datblygu IMTP ar gyfer 2018-21 ym mis Hydref 2017 sy'n cadarnhau y dylid amlinellu blaenoriaethau'r cynllun cyflawni cenedlaethol yn yr IMTP. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad wrthym y bydd yr IMTP hefyd yn adlewyrchu dylanwad strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni ei blaenoriaethau allweddol dros weddill tymor y Cynulliad hwn, Ffyniant i Bawb, a'r canfyddiadau sy'n codi o'r adolygiad seneddol o iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd yr IMTP yn parhau i ganolbwyntio ar gomisiynu, gofal sylfaenol a gofal cymunedol ac yn symud ymlaen tuag at weithio rhanbarthol. Cafwyd cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad a'r Cyfarwyddwr Cyllid i'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad ym mis Tachwedd 2017 ar y gwaith o ddatblygu'r IMTP ar gyfer 2018-19 – 2020-21.

123 Cynhaliwyd sesiwn datblygu'r Bwrdd ym mis Medi 2017 gyda staff o swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i adolygu'r weledigaeth bresennol a nodwyd yn IMTP 2017-20 o'i chymharu â'r amcanion llesiant. Cytunodd y Bwrdd i ailysgrifennu amcanion ei IMTP i gyd-fynd â'r Strategaeth Iechyd a Gofal gyda'r bwriad o ddefnyddio'r IMTP fel cyfrwng ar gyfer bwrw ymlaen â'r Strategaeth Iechyd a Gofal. Mae Grŵp Llywio Cynllunio y Bwrdd Iechyd yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn a darperir diweddariad statws ffurfiol ar gyfer yr holl gynlluniau ym mis Mawrth 2018, yn rhan o gyflwyniad terfynol yr IMTP.

124 Ailstrwythurwyd y Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Pherfformiad yn 2016 a phenodwyd pedwar Cyfarwyddwr Cynorthwyol i fod yn gyfrifol am gynllunio; comisiynu; cyfalaf ac ystadau; a rheoli perfformiad. Mae rhai symudiadau wedi bod yn ystod 2017 wrth i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros Gynllunio a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros Reoli Perfformiad symud ymlaen. Mae'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad yn ffyddiog bod ganddynt bellach y strwythur staffio cywir a'r timau ategol i ymdrin â gofynion cynllunio a pherfformiad. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod yr her i Fwrdd Iechyd bach fel Powys o wrth ddenu a chadw staff ar y lefel hon. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r her hon.

## Mae gan y Bwrdd a'r pwyllgorau gylch gorchwyl clir ac mae'r aelodau'n cymryd rhan weithredol

125 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd y bwrdd, ei strwythurau llywodraethu a'r trefniadau sicrwydd. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

126 Ym mis Ionawr 2017, cymeradwyodd y Bwrdd y Rheolau Sefydlog diwygiedig a Chynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau ar wahân. Er bod Ysgrifenyddion Bwrdd GIG Cymru wedi bod gweithio gyda'i gilydd i adolygu'r rheolau sefydlog enghreifftiol y cyflwynodd GIG Cymru ym mis Mawrth 2014, roedd angen dogfennau cyfredol ar y Bwrdd Iechyd i adlewyrchu'r pwyllgorau diwygiedig a'r trefniadau sefydliadol newydd. Mae'r diwygiadau i'r rheolau sefydlog yn ystyried y ddeddfwriaeth briodol a sefydlodd y Bwrdd Iechyd a deddfwriaeth sydd wedi dod i rym ers 2014.

127 Mae'r Cynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau yn nodi'r lefel briodol yn y sefydliad ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae'r cynllun diwygiedig yn rhoi rhagor o fanylion i sicrhau nad oes unrhyw amwysedd o ran swyddogaethau a chyfrifoldebau, gan gynnwys ei gwneud yn gwbl glir mai'r Prif Swyddog Gweithredol yw'r Swyddog Atebol. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Bwrdd wrth y Bwrdd bod yr egwyddorion a bennwyd gan Weinidogion Cymru wedi eu hystyried yn llawn wrth benderfynu ar yr hyn i'w gadw a'r hyn i'w ddirprwyo.

128 Mae Ysgrifennydd y Bwrdd wedi sicrhau bod cylch gorchwyl cyfan y pwyllgorau wedi ei adolygu a bod hunanasesiadau wedi eu cynnal. Cynhelir cofnodion gweithredu ac fe'u hadolygir ar gyfer y Bwrdd a phob pwyllgor ym mhob cyfarfod. Cytunir ar yr eitemau sydd i'w huwchgyfeirio i'r Bwrdd ar ddiwedd pob cyfarfod. Paratowyd a chymeradwywyd adroddiadau blynyddol gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf ar gyfer pob pwyllgor. Yr unig hepgoriad oedd y rhaglenni gwaith ar gyfer y Bwrdd a phob pwyllgor. Roedd adroddiad Ysgrifennydd y Bwrdd ym mis Mawrth 2017 yn nodi bod rhaglenni gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau ar gyfer 2017-18 yn cyfateb â'r IMTP, y gofrestr risg gorfforaethol a'r fframwaith sicrwydd, ac y byddent yn cael eu hadolygu yn sesiwn ddatblygu'r Bwrdd ym mis Ebrill 2017, a byddai fersiynau terfynol yn mynd i'r Bwrdd i'w cymeradwyo ym mis Mai 2017. Fodd bynnag, nid oedd rhaglen fusnes y Bwrdd wedi ei chyhoeddi erbyn diwedd mis Tachwedd 2017 a chyflwynwyd rhaglenni gwaith y pwyllgorau ar gyfer 2017-18 o fis Awst 2017 ymlaen. Rhoddwyd sicrwydd inni gan Ysgrifennydd y Bwrdd bod yr holl bwyllgorau yn gweithio yn unol â rhaglenni gwaith drafft ond mae'n bwysig bod rhaglenni gwaith yn cael eu cwblhau a'u cyflwyno yn gynharach yn y flwyddyn.

129 Mae holl bapurau'r Bwrdd yn gyhoeddus erbyn hyn ac maent ar gael ar y rhyngrwyd oni bai bod angen iddynt fod yn gyfrinachol, ac adroddir ar sesiynau mewn pwyllgorau i'r Bwrdd, gan hwyluso tryloywder. Er bod tudalenau'r Bwrdd Iechyd ar y we ar gyfer pob pwyllgor yn darparu agendâu a phapurau, ar adeg ein gwaith adolygu roedd y rhannau cyflwyniadol yn nodi y ceir dolenni at

gylchoedd gorchwyl, adroddiadau blynyddol a rhaglenni gwaith, ond nid oeddent ar gael mewn gwirionedd. Mae'n bwysig bod dolenni yn cael eu hadolygu yn rheolaidd a'u cadw'n fyw. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn adolygu'r holl bapurau cyn iddynt gael eu gwneud yn gyhoeddus ar y rhyngrwyd i sicrhau nad ydynt yn cynnwys gwybodaeth na ddylai fod yn gyhoeddus a'u bod yn cydymffurfio â'r GDPR. Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn dal i ddefnyddio dogfennau papur er gwaethaf ymgais gan Ysgrifennydd y Bwrdd i gynyddu'r defnydd o ddogfennau electronig. Mae potensial i arbed faint o bapur a ddefnyddir a'r amser y mae'n ei gymryd i argraffu dogfennau, a gallai fod cynnydd posibl mewn effeithiolrwydd drwy weithio'n electronig.

130 Cytunodd y Bwrdd ym mis Mawrth 2017, fel y nodir yng ngofynion y rheolau sefydlog, y byddai pob pwyllgor a fyddai'n cael ei gyfansoddi ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17 yn parhau yn 2017-18 â'r un gylch gorchwyl heblaw am ddau; y Pwyllgor Technoleg Rheoli Gwybodaeth a Llywodraethu, a wnaeth fân ddiwygiad i'w bwerau a'i awdurdod dirprwyedig, a'r Pwyllgor Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu, a fydd yn cyfarfod bob yn ail fis yn hytrach nag yn chwarterol yn y dyfodol. Cytunodd y Bwrdd hefyd i sefydlu dau bwyllgor newydd, y Pwyllgor Ceisiadau Fferyllol a'r Pwyllgor Rheoli Therapïau Seicolegol, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

131 Drwy fod yn bresennol mewn pwyllgorau a thrwy adolygu agendâu a phapurau pwyllgorau, rydym wedi gweld bod y pwyllgorau'r gweithio'n dda. Mae aelodau annibynnol yn gofyn cwestiynau perthnasol ac fel arfer byddant yn cael ymatebion boddhaol gan gyfarwyddwyr gweithredol neu eu cynrychiolwyr. Mae peth tensiwn yn amlwg rhwng faint o fanylion y mae'r aelodau annibynnol o'r farn y mae eu hangen arnynt i gael sicrwydd a bod yn rhy rhwym â busnes gweithredol y sefydliad a gofyn am lawer o wybodaeth sy'n cymryd amser i'w chasglu at ei gilydd. Mae'n bwysig parhau â'r drafodaeth a chanfod dulliau o fwrw ymlaen sy'n diwallu anghenion pawb. Un enghraifft lwyddiannus o hyn yw'r wybodaeth a ddarperir ar y cynlluniau arbed a pherfformiad i'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad.

132 Mae dau aelod annibynnol profiadol wedi symud ymlaen gan eu bod wedi cyrraedd diwedd eu cyfnod yn y swyddogaeth. Mae'r aelodau annibynnol newydd a benodwyd yn rhai cadarn ac maent wedi ymgyfarwyddo'n gyflym, gan sicrhau cyfnod pontio didrafferth. Ym mis Medi 2017, cytunodd y Bwrdd y byddai pedwar pwyllgor yn parhau â'r un Cadeiryddion, ac mae tri Chadeirydd pwyllgor wedi symud i swyddogaeth newydd y byddant yn ymgyfarwyddo â nhw dros yr ychydig fisoedd nesaf.

133 Mae pob aelod o'r Bwrdd (cyfarwyddwyr gweithredol ac aelodau annibynnol) yn cymryd rhan mewn sesiynau datblygu'r Bwrdd rheolaidd. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn ceisio llunio rhaglen yn seiliedig ar amserlen ond sy'n gallu ymateb i ddigwyddiadau. Mae'r rhaglen yn gymysgedd o sesiynau y gellir eu halinio â chynllunio strategol a datblygu rhaglen gyfalaf, ar gais aelodau o'r Bwrdd, ar gais sefydliad allanol fel Comisiwn Bevan, materion sy'n codi, neu ofynion llywodraethu. Wrth ymateb i gwestiwn ynghylch pa un a oedd rhwydwaith sy'n cydgysylltu'r gwaith o lunio rhaglen datblygu'r Bwrdd â byrddau iechyd eraill, dywedodd Ysgrifennydd y Bwrdd wrth y Pwyllgor Profiad y Cleifion, Ansawdd a Diogelwch ym mis Mawrth 2017 bod grŵp cydweithwyr o Ysgrifenyddion Byrddau Iechyd yn cyfarfod yn fisol a thrafodir rhywfaint o waith datblygu'r bwrdd yn y fforwm hwn. Cadarnhaodd aelodau annibynnol y cyfwelwyd â nhw bod y rhan fwyaf o'r sesiynau yr oeddynt wedi eu mynychu wedi bod yn ddefnyddiol, ond nid bob un, ac awgrymwyd y byddent yn croesawu mwy o gyflwyniadau gan siaradwyr allanol. Dywedodd aelodau annibynnol wrthym hefyd eu bod yn gallu codi pryderon â'r Cadeirydd i'w huwchgyfeirio os oes angen. Mae'r Cadeirydd yn cynnal arfarniad blynyddol ar gyfer pob aelod annibynnol ac fe'u cwblhawyd i gyd erbyn diwedd mis Medi 2017.

134 Mae’r amgylchedd rheoli mewnol wedi gwella eto yn ystod y flwyddyn. Mae gan yr archwilwyr mewnol raglen eang sy’n canolbwyntio ar risgiau allweddol i’r sefydliad. Fodd bynnag, bydd yn cymryd amser i ymwreiddio’r holl welliannau angenrheidiol i’r trefniadau sicrwydd trwy’r sefydliad. Er gwaethaf gweithgarwch sylweddol i wella sicrwydd dros y blynyddoedd diwethaf, ‘sicrwydd cyfyngedig’ a ddyfarnwyd gan Farn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2016-17 unwaith eto. Roedd Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol yn nodi y gall y Bwrdd fod â ‘sicrwydd cyfyngedig’ bod y trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol, yn y meysydd hynny a oedd yn destun adolygiad, wedi eu cynllunio’n addas a’u gweithredu’n effeithiol. Ar 31 Mai 2017, mynegodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ei siom, yn enwedig gan mai Powys oedd yr unig Fwrdd Iechyd yng Nghymru i gael sgôr cyffredinol o ‘sicrwydd cyfyngedig’. Dywedodd Ysgrifennydd y Bwrdd ei bod yn bwysig ystyried y farn honno yn ei chyd-destun gan fod y Prif Weithredwr a’r Bwrdd wedi annog yr archwilwyr mewnol i ganolbwyntio ar feysydd o risg a rhai yr oedd pryder bod angen eu gwella. Mae hefyd yn wir bod trefniadau sicrwydd cryfach yn cymryd amser i ymwreiddio drwy’r sefydliad.

135 Cyflawnodd y Bwrdd ei ofynion adrodd blynyddol. Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol a’r Cyfrifon ar gyfer 2016-17 i’r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 19 Gorffennaf 2017 a ddygwyd ymlaen o fis Medi y llynedd. Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys yr Adroddiad Atebolrwydd a’r Datganiad Ansawdd Blynyddol. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi nodi’n glir ei drefniadau llywodraethu diwygiedig yn yr Adroddiad Atebolrwydd. Daeth y Prif Weithredwr, sef y swyddog atebol, i’r casgliad bod gan y Bwrdd system gadarn o reoli mewnol yn gyffredinol mewn llawer o feysydd, sy’n cefnogi cyflawniad ei nodau ac amcanion strategol, ond bod angen cryfhau ac ymwreiddio trefniadau rheoli, risg a sicrwydd ymhellach. Dywedodd y byddai ar y cyd â’r Bwrdd yn parhau i ysgogi gwelliannau ac yn ceisio rhoi sicrwydd i’r dinasyddion a’r rhanddeiliaid bod y gwasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd yn effeithlon, yn effeithiol ac yn briodol a’u bod wedi’u cynllunio i gyflawni anghenion a disgwyliadau cleifion.

136 Mae cynnydd da wedi’i wneud hefyd i gryfhau gwasanaethau archwilio clinigol a gwrth-dwyll. Yn ystod 2016 a dechrau 2017, darparwyd y gwasanaethau gwrth-dwyll gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Fodd bynnag, nid oedd y Bwrdd Iechyd yn derbyn gwasanaeth o’r safon ofynnol. Trafododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Mawrth 2017 y posibilrwydd o newid darparwr y gwasanaethau. Trefnodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TG i’r gwasanaeth drosglwyddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a phenodwyd Arbenigwr Gwrth-dwyll Lleol newydd i weithio ym Mhowys o fis Medi 2017 ymlaen. Mae cynllun gwaith gwrth-dwyll blynyddol diwygiedig wedi ei gynhyrchu erbyn hyn a chytunwyd arno â’r Cyfarwyddwr Cyllid a TG. Yn ystod mis Gorffennaf 2017, cynhaliodd Uwch Arolygydd Ansawdd a Chydymffurfio (SQCI) NHS Protect ymweliad safle i sicrhau ansawdd. Er y rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ar ôl y cyfweliadau, nid yw’r adroddiad ysgrifenedig terfynol wedi ei rannu â’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn unol â’r bwriad.

137 Mae’r Bwrdd Iechyd yn gorfod cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI). Ym mis Ionawr 2017, derbyniodd y Bwrdd Iechyd 2,499 o gydweddiadau data drwy raglen yr NFI ar y we. Mae cydweddiadau data yn amlygu anomaleddau a all helpu i nodi twyll a chamgymeriadau wrth eu hadolygu. Er na fyddem yn disgwyl i’r sefydliad adolygu yr holl gydweddiadau data, mae rhai o’r cydweddiadau wedi’u categoreiddio’n ‘gydweddiadau a argymhellir’. Y rhain yw’r cydweddiadau a ystyrir yn rhai risg uchel ac felly argymhellir eu hadolygu yn gynnar. Roedd y Bwrdd Iechyd yn cynnwys un cydweddiad a argymhellir. Mae rhaglen yr NFI ar y we, sy’n cofnodi canfyddiadau adolygiad y Bwrdd Iechyd o’i gydweddiadau data, yn dangos mai dim ond un o’r cydweddiadau data yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi’i adolygu erbyn 20 Tachwedd 2017. Mae’n peri pryder sylweddol bod y

Bwrdd Iechyd wedi methu â gwneud defnydd effeithiol o'r NFI yn rhan o'i drefniadau i atal a datgelu twyll. Ym mis Hydref 201,8 bydd yn bryd i'r Bwrdd Iechyd ddarparu data ar gyfer ymarfer nesaf yr NFI (NFI 2018-19). Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad yn ddiweddar o'i gydweddiadau data NFI ac wedi blaenoriaethu'r gwaith hwn i'w gyflawni ym mis Ionawr 2018 a thu hwnt, gan ganolbwyntio ar y nifer bach o gydweddiadau blaenoriaeth uchel i ddechrau. Mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod y cydweddiadau y mae'n eu derbyn gan yr NFI yn cael eu hadolygu a'u hymchwilio'n brydlon, pan fo angen gwneud hynny.

138 Yn 2016, gwnaethom adrodd bod angen cydgysylltu cadarnach ar raglen archwilio clinigol y Bwrdd Iechyd, er y cydnabuwyd bod amrywiaeth o archwiliadau clinigol wedi eu cynnal dros y 12 mis diwethaf. Adroddodd yr archwilwyr mewnol ar archwiliad clinigol 2016-17 gan ganfod y gallai'r Bwrdd Iechyd fod â sicrwydd cyfyngedig yn sgil eu trefniadau. Gwnaethom argymell bod y Bwrdd Iechyd yn datblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer archwilio clinigol i sicrhau ei fod yn chwarae rhan lawn wrth wella ansawdd a bod ei gyfraniad i sicrwydd y bwrdd yn glir. Cymeradwywyd y Strategaeth Archwilio Clinigol ar gyfer 2017-20 gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Mai 2017. Sefydlwyd y Grŵp Rheoli Gweithredol yn ddiweddar i sicrhau yr ystyrir pob maes o'r sefydliad yn y Cynllun Archwilio Clinigol ac i gydnabod pwysigrwydd sicrwydd ar gyfer taith gyfan y claf. Mae'r archwiliwyr mewnol yn cynnal archwiliad dilynol o weithrediad argymhellion yr archwiliad clinigol ar gyfer 2016-17 ar hyn o bryd a byddant yn cyflwyno adroddiad yn 2018.

139 Yn ogystal ag adolygu'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag argymhellion ein hasesiad strwythuredig yn 2016, gwnaethom hefyd ystyried effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i argymhellion ein harchwiliad. Rhoddodd Ysgrifennydd y Bwrdd gyflwyniad i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Mai 2017 ar y cynnydd o ran ymdrin ag argymhellion o'r archwiliad mewnol ac allanol a'r adroddiadau eithriadau o ran argymhellion lle bu ychydig iawn o gynnydd neu gynnydd araf. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn cydgysylltu â gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i ddefnyddio ei gronfa ddata olrhain argymhellion. Byddai hyn yn symleiddio'r mynediad at brosesau olrhain byw ar y cynnydd yn erbyn yr holl argymhellion ond nid yw'r dyddiad ar gyfer ei gyflwyno ar gael eto.

140 Yn 2016, gwnaethom yr argymhelliad canlynol yn ymwneud ag effeithiolrwydd a dulliau rheoli mewnol y bwrdd a'r pwyllgorau. Mae Arddangosyn 7 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed. Mae dau argymhelliad wedi'u cwblhau ar drefniadau archwilio clinigol a gwrth-dwyll ond mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu modd o olrhain argymhellion.

Arddangosyn 7: cynnydd ar argymhellion effeithiolrwydd y bwrdd a'r pwyllgorau yn 2016

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **A5**<br>Mae angen cydgysylltu rhaglen archwilio clinigol y Bwrdd Iechyd yn gryfach, er y cydnabuwyd bod amrywiaeth o archwiliadau clinigol wedi eu cynnal dros y 12 mis diwethaf. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer archwilio clinigol i sicrhau ei fod yn chwarae rhan lawn wrth wella ansawdd a bod ei gyfraniad i sicrwydd y bwrdd yn glir. | **Argymhelliad wedi'i gwblhau**<br>Cymeradwywyd Strategaeth Archwilio Clinigol ar gyfer 2017-20 gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Mai 2017. |
| **A6**<br>Er i'r gwasanaethau gwrth-dwyll sefydlu'n dda yn ystod 2015 ac yn gynnar yn 2016, maent wedi dirywio ers hynny. Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu gwasanaeth gwrth-dwyll cadarn a chynaliadwy. | **Argymhelliad wedi'i gwblhau**<br>Mae'r gwasanaeth gwrth-dwyll wedi trosglwyddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac maent wedi penodi Arbenigwr Gwrth-dwyll Lleol newydd i weithio ym Mhowys o fis Medi 2017. |
| **A7**<br>Er y cyflwynir adroddiad eithriadau ar gynnydd yn erbyn argymhellion archwilio i bob yn ail Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, dylai'r pwyllgor adolygu'r modd o olrhain yr holl argymhellion o leiaf unwaith y flwyddyn. | **Argymhelliad ar waith ond nid yw wedi ei gwblhau eto**<br>Rhoddodd Ysgrifennydd y Bwrdd gyflwyniad i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Mai 2017 ar y cynnydd o ran ymdrin ag argymhellion o'r archwiliad mewnol ac allanol a'r adroddiadau am eithriadau ar argymhellion y bu ychydig iawn o gynnydd arnynt neu gynnydd araf. Mae'r cynnydd yn parhau i fod yn araf.<br>Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn datblygu cronfa ddata olrhain argymhellion. Byddai hyn yn symleiddio'r mynediad at wybodaeth olrhain byw ond nid yw'r dyddiad ar gyfer ei gyflwyno ar gael eto. |

## Mae gwaith yn parhau i gryfhau cydnerthedd a chapasiti sefydliadol

141 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd a chynllun strwythur y sefydliad. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

142 Yn 2015, daeth ein hasesiad strwythuredig i'r casgliad mai'r her yw sicrhau bod digon o gydnerthedd, capasiti a phrofiad yn y tîm Gweithredol i gynnal cyflymder newid cynaliadwy, cryfhau capasiti rheoli gweithredol, a sicrhau bod ganddo'r gydbwysedd gywir rhwng trefniadau penodol i gyfarwyddiaethau a threfniadau cyflawni ar draws Powys. Gwnaeth y Bwrdd Iechyd newidiadau i'r strwythur yn ystod 2016 gan symud o ganolbwyntio ar gyflawni yn lleol i strwythur mwy canolog a arweinir gan un o ddeg o gyfarwyddiaethau. Mae'r strwythur yn seiliedig ar y model Arwain ac Adnewyddu Newid Sefydliadol

sy'n disgrifio ble a sut y mae'r gwaith critigol yn cael ei wneud ar draws sefydliad er mwyn cyflawni ei strategaeth. Roedd y strwythur yn gwahanu comisiynu a chyflawni lleol, drwy ddyrannu comisiynu i'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad, ond parhaodd y gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd i gael eu darparu trwy'r ddwy ardal o dan y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol ac Iechyd Meddwl. Symudodd yr holl gyfrifoldebau gweithlu o'r ardaloedd i'r Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol a symudodd cyllid a TGCh i'r Cyfarwyddwr Cyllid. Dechreuodd dau Reolwr Ardal Cyffredinol newydd yn eu swyddi yn 2016 a 2017.

143 Yn ystod 2017, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio ar adnewyddu'r model gweithredu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol wrth y Pwyllgor Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol bod y Grŵp Rheoli Gweithredol a'r Fforwm Partneriaeth Lleol wedi cymryd rhan mewn gweithdai i adolygu'r model gweithredu presennol. Yn dilyn y gwaith cychwynnol hwn, dewiswyd cwmni allanol, Operasee, am eu lefel arbenigol o wybodaeth, gan nad oedd gan y Bwrdd Iechyd y capasiti mewnol i'w gyflawni. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar gangen cyflawni gweithredol y Bwrdd Iechyd, yn y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol ac Iechyd Meddwl. Rhagwelir y cwblheir yr adolygiad erbyn diwedd Tachwedd 2017.

144 Roedd sefydlogrwydd ar lefel y Swyddogion Gweithredol drwy'r rhan fwyaf o 2017, ac ni fu unrhyw swyddi gweigion yn y prif swyddogaethau cyfarwyddwyr a dim ond un cyfarwyddwr dros dro. Her ddiweddar i'r Bwrdd Iechyd fydd penodi Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol ac Iechyd Meddwl gan fod y deiliad presennol yn ymuno â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar ddiwedd 2017. Mae trefniadau wedi eu rhoi ar waith a bydd y Cyfarwyddwr Nyrsio presennol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am wasanaethau cymunedol, gwasanaethau i fenywod a phlant, iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Bydd y Prif Weithredwr yn arwain gofal sylfaenol gyda chymorth gan y Cyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer Gofal Sylfaenol a bydd y Cyfarwyddwr Meddygol yn darparu arweinyddiaeth glinigol. Mae Cyfarwyddwr Nyrsio dros dro wedi ei benodi'n ddiweddar.

## Mae gan y Bwrdd fframwaith sicrwydd a rheoli risg sydd wedi'u cymeradwyo, sydd bellach yn ymwreiddio ar draws y sefydliad

145 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd y bwrdd, ei strwythurau llywodraethu a'r trefniadau sicrwydd. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

146 Yn ein hasesiad strwythuredig yn 2016 daethom i'r casgliad bod y bwrdd bellach yn deall ei ofynion sicrwydd, er bod y broses o ddatblygu fframwaith sicrwydd bwrdd cynhwysfawr wedi bod yn hir, ac mae rhagor o waith i'w gwblhau a'i weithredu'n effeithiol. Ysgrifennydd y Bwrdd, yn rhan o'r rhaglen gwella llywodraethu, sy'n gyfrifol am sicrhau sefydliad a lywodraethir yn dda, ac mae wedi bwrw ymlaen â nifer o gamau gweithredu i wella trefniadau llywodraethu yn ystod 2017.

147 Ym mis Ionawr 2017, cymeradwyodd y Bwrdd gyfres o ddogfennau sy'n sail i'w drefniadau llywodraethu:

- bydd y fframwaith rheoli risg yn helpu i ddatblygu a chynnal diwylliant sefydliadol sy'n annog risgiau priodol, rheoli perfformiad effeithiol a dysgu sefydliadol er mwyn gwella'r gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir yn barhaus. Mae'r fframwaith rheoli risg yn nodi proses adrodd aml-haen, sy'n cynnwys y fframwaith sicrwydd a'r gofrestr risg gorfforaethol, cofrestri risg cyfarwyddiaethau, cofrestri risg lleol a chofrestri risg prosiectau.

- mae’r fframwaith sicrwydd yn rhoi trosolwg o asesiad y Pwyllgor Gweithredol o ddigonolrwydd y dulliau rheoli a’r trefniadau sicrwydd sydd ar waith er mwyn helpu i gyflawni 12 amcan strategol y Bwrdd Iechyd. Dywedodd Ysgrifennydd y Bwrdd yr eir i’r afael â’r bylchau yn y dulliau rheoli a nodwyd yn y fframwaith sicrwydd drwy broses ddatblygu’r IMTP a phroses gynllunio’r cyfarwyddiaethau.
- mae’r gofrestr risg gorfforaethol yn cofnodi’r risgiau a uwchgyfeirir o gofrestri risg cyfarwyddiaethau gan eu bod wedi eu graddio’n ‘uchel’ ar ôl ystyried y dulliau rheoli presennol, gsy’n cyfiawnhau dwyn sylw’r Bwrdd atynt felly. Nododd Ysgrifennydd y Bwrdd y cytunwyd y dylai unrhyw risgiau â sgôr o 12 neu uwch gael eu huwchgyfeirio at y gofrestr risg gorfforaethol i’r Bwrdd eu hystyried a’u trafod. Dywedodd Ysgrifennydd y Bwrdd wrth y Bwrdd bod angen gwneud rhagor o waith i adolygu a mireinio cofrestri risg y cyfarwyddiaethau i sicrhau eu bod yn sail i’r gofrestr risg gorfforaethol a’u bod yn ei hysbysu’n briodol. Nodwyd bod y gofrestr risg gorfforaethol wedi’i llenwi felly gan Gyfarwyddwyr Gweithredol yn rhan o’r broses o ddatblygu fframwaith sicrwydd.

148 Dywedodd Ysgrifennydd y Bwrdd wrthym fod fframweithiau sicrwydd ansawdd ar lefel y cyfarwyddiaethau wedi bod ar waith ers diwedd mis Mehefin 2017 a datblygwyd a chyflwynwyd rhaglen o hapwiriadau a hunanasesu o fis Gorffennaf 2017 ymlaen. Mae’r hapwiriadau yn cwmpasu materion llywodraethu gwybodaeth a materion rheoli cofnodion ar hyn o bryd, a byddant yn cael eu hymestyn yn 2018-19. Cynhaliwyd gwerthusiad ffurfiol o’r broses hapwiriadau ar ddiwedd mis Medi 2017 a fydd yn llywio datblygiad rhaglen dreigl o hapwiriadau a phecyn cymorth hunanasesu.

149 Rydym wedi bod yn arsylwi gweithrediad y trefniadau sicrwydd ar lefel y Bwrdd a’r pwyllgorau. Trafodwyd y gofrestr risg gorfforaethol yn y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2017. Argymhellodd y Pwyllgor Gweithredol bod dwy risg newydd yn cael eu huwchgyfeirio o gofrestri risg y cyfarwyddiaethau: diffyg parodrwydd ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (CR9); a methiant gwasanaeth gofal gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn oriau gwaith a’r tu allan iddynt (CR10). Cymeradwyodd y Bwrdd uwchgyfeirio’r ddwy risg i’r gofrestr risg gorfforaethol.

150 Argymhellodd y Pwyllgor Gweithredol hefyd y dylid lleihau sgôr dwy risg: yr anallu i ddenu, recriwtio a datblygu staff cymwysedig sydd â’r sgiliau a’r cymwyseddau priodol sy’n ofynnol ar draws gofal sylfaenol a gofal cymunedol (CR7); a chynllunio ariannol aneffeithiol (CR3). Trafododd y Bwrdd ddaduwchgyfeirio’r risgiau gan bwysleisio’r camau ychwanegol a oedd wedi eu rhoi ar waith i liniaru’r risgiau ymhellach. Ar ôl peth trafod, cytunodd y Bwrdd na ddylid daduwchgyfeirio’r risgiau hyn ar yr adeg honno ond y dylid eu cyfeirio at y pwyllgor priodol i’w hadolygu’n fanwl eto a gallai’r pwyllgor wneud argymhelliad i’r Bwrdd ar y risg a’r sgôr.

151 Trafododd y Pwyllgor Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol risg CR7 yn ei gyfarfod ym mis Awst 2017, a nodir rhagor o fanylion yn adran gweithlu yr adroddiad hwn. Mae’r adolygiad o risg CR3 wedi cynyddu’n arafach. Trafodwyd y risg hon yn y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad yn fyr ym mis Tachwedd 2017, a chytunodd y pwyllgor y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn aileirio’r risg. ‘Torri’r ddyletswydd statudol i gyflawni sefyllfa pan gaiff y gyllideb ei mantoli’ yw CR3 bellach ac mae’r dulliau rheoli yn parhau yr un fath. Cytunodd y Bwrdd i newid y geiriad yn y cyfarfod ym mis Tachwedd 2017.

152 Mae’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn parhau i fod â swyddogaeth oruchwylio dros drefniadau rheoli risg y fframwaith sicrwydd. Cyflwynodd Ysgrifennydd y Bwrdd y gofrestr risg gorfforaethol i gyfarfod y pwyllgor ym mis Medi 2017. Dywedodd wrth y pwyllgor bod cyfarwyddwyr wedi bod yn gweithio gyda’u timau eu hunain i lanhau’r cofrestri lleol a chofrestri’r cyfarwyddiaethau a’u bod wedi’u hadolygu gan y

Pwyllgor Gweithredol ym mis Gorffennaf, ynghyd â'r gofrestr risg gorfforaethol. Nodwyd bod y Cyfarwyddwyr yn y broses o fireinio'r cofrestri risg corfforaethol ymhellach a bod sesiwn arall gyda'r Pwyllgor Gweithredol wedi ei chynnal ar ddiwedd Awst, pan gafodd y cofrestri eu cymedroli a'u defnyddio i lywio adolygiad o'r gofrestr risg gorfforaethol a'r fframwaith sicrwydd.

153 Mae gwaith yn parhau hefyd ar gofrestri risg y pwyllgorau i ddwyn ynghyd y risgiau perthnasol ar gyfer pob pwyllgor o'r gofrestr risg gorfforaethol, y fframwaith sicrwydd a chofrestri perthnasol y cyfarwyddiaethau. Dywedodd cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad yng nghyfarfod mis Tachwedd 2017 ei fod yn edrych ymlaen at fod â chofrestr risg y pwyllgor wrth law wrth drafod y rhaglen waith.

154 Er y gallai'r trefniadau hyn ymddangos yn fiwrocrataidd ac maent wedi cymryd peth amser i'w datblygu, eu bwriad yw darparu 'llinyn aur' er mwyn sicrhau bod risgiau lefel uchel sy'n codi yn y gwasanaethau yn weladwy ac y gellir eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd yn ôl y gofyn. Mae risg CR10 yn un enghraifft o risg lefel uchel sydd wedi'i huwchgyfeirio i'r Bwrdd Iechyd, sef methiant y gwasanaethau meddygol cyffredinol yn ystod oriau gwaith a thu allan iddynt. Roedd Shropdoc, y darparwr gwasanaethau meddygol gofal sylfaenol y tu allan i oriau i Bowys, Swydd Amwythig, Telford a Wrekin yn wynebu heriau ariannol a chytunodd comisiynwyr GIG ym Mhowys, Swydd Amwythig, Telford a Wrekin ar rywfaint o gymorth dros dro. Mae'r Bwrdd wedi cymryd rhan lawn yn yr ystyriaethau a'r penderfyniadau a wnaed i sicrhau dilyniant gofal ar gyfer cleifion lleol. Bydd yr archwilwyr mewnol yn cynnal adolygiad o'r camau sicrwydd risg yn gynnar yn 2018 i roi prawf ar y trefniadau a pha mor dda y maent yn gweithio yn ymarferol.

155 Yn 2016 gwnaethom yr argymhelliad canlynol yn ymwneud â sicrwydd a rheoli risg. Mae Arddangosyn 8 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 8: cynnydd ar argymhellion sicrwydd a rheoli risg 2016

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **A4**<br>Pan fydd fframwaith sicrwydd y bwrdd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd, bydd yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y system sicrwydd ac yn cael ei deall a'i gweithredu'n effeithiol drwy:<br>a) ymwreiddio'r trefniadau ar draws y sefydliad;<br>b) cynnal rhaglen o hunanasesu;<br>c) adolygu'r fframwaith sicrwydd yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd. | **Argymhelliad wedi'i gwblhau**<br>Mae'r rhaglen gwella llywodraethu wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu'r elfennau sy'n sail i SO8: Sicrhau Sefydliad a Lywodraethir yn Dda.<br>Cymeradwywyd y fframweithiau sicrwydd gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2017 ac mae gwaith wedi parhau drwy gydol y flwyddyn i ymwreiddio'r trefniadau ar draws y sefydliad.<br>Mae rhaglen o hapwiriadau a hunanasesu ar waith ar lefel y cyfarwyddiaethau.<br>Ystyrir y gofrestr risg gorfforaethol ym mhob cyfarfod y Bwrdd. |

## Mae’r Bwrdd Iechyd yn gweithio i wella trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer gwasanaethau a ddarperir a gwasanaethau a gomisiynir

156 Mae’r canfyddiadau sy’n sail i’r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli perfformiad. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

157 Yn dilyn trafodaethau manwl yn y Pwyllgor Cynllunio Ariannol a Pherfformiad, trafodwyd fframwaith newydd ar gyfer gwella perfformiad a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Medi 2017. Amcan y fframwaith hwn yw sicrhau bod gwybodaeth ar gael sy’n galluogi’r Bwrdd a phersonél allweddol eraill ddeall, monitro ac asesu perfformiad y sefydliad, gan alluogi camau gweithredu priodol i gael eu cymryd pan fo perfformiad yn dirywio o’i gymharu â’r targedau a benwyd, a chefnogi a hybu gwelliant parhaus yn y gwasanaeth a ddarperir. Mae’r fframwaith hwn yn cefnogi sicrwydd cyffredinol y Bwrdd ar reoli’r prif risgiau i gyflawni’r amcanion strategol a darparu gofal o ansawdd da i gleifion.

158 Clywodd y Pwyllgor Cynllunio Ariannol a Pherfformiad ym mis Medi 2017 hefyd fod rhagor o fanylion am berfformiad yn dod i law ar lefel y Cyfarwyddwyr ac mae Grŵp Cyflawni a Pherfformiad y Pwyllgor Gweithredol yn derbyn rhagor o adroddiadau am eithriadau a thrafodaethau. Er mwyn sicrhau bod prosesau adrodd yn parhau i wella ac i gryfhau’r sicrwydd i’r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad a’r Bwrdd, cynhelir gweithdai ar reoli perfformiad ac adrodd i swyddogion perthnasol er mwyn paratoi ar gyfer adrodd o’i gymharu â pherfformiad yn yr ail chwarter.

159 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cryfhau ei drefniadau comisiynu ers 2015. Cymeradwyodd y Bwrdd fframwaith comisiynu strategol ym mis Tachwedd 2016 ac fe’i datblygwyd gan y rhaglen datblygu comisiynu yn unol â gofynion cynllun blynyddol 2016-17. Mae’r fframwaith yn nodi sut y dylai’r Bwrdd Iechyd fod yn comisiynu a’r trefniadau angenrheidiol i gefnogi comisiynu effeithiol. Y nod yw sicrhau bod gan y sefydliad y strategaeth, y bobl, y prosesau a’r strwythurau cywir ar waith; a model sy’n adlewyrchu gwerthoedd a threfniadau GIG Cymru. Mae’r fframwaith yn disgrifio’r ‘cylch comisiynu’ y gellir ei ddefnyddio ar bob lefel. Mae’r cylch yn cwmpasu’r camau a’r prosesau wrth nodi anghenion mewn poblogaeth ac yna cynllunio sut i fodloni’r anghenion hynny yn y modd mwyaf priodol a chost effeithiol. Ceir tua 200 o ddarparwyr ar hyn o bryd.

160 Sefydlwyd y fframwaith sicrwydd comisiynu yn 2015 i sicrhau dealltwriaeth fwy diogel, fwy cyfannol a mwy cadarn o’r gwasanaethau a gomisiynir ar hyn o bryd, gyda dull sy’n seiliedig ar reolau o uwchgyfeirio pan fo problemau’n codi yn y gwasanaethau a ddarperir gan y gwasanaeth a gomisiynir. Caiff ei ddefnyddio gan y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd ar draws 14 o sefydliadau GIG mewn pum economi iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mae’r gwahanol ddarparwyr wedi cyrraedd gwahanol bwyntiau yn y broses o’i weithredu.

161 Defnyddir y fframwaith sicrwydd comisiynu yn sail ar gyfer adroddiadau i’r Pwyllgor Cynllunio Cyllid a Pherfformiad. Ym mis Hydref 2017, roedd tri darparwr yn Lloegr yn destun mesurau arbennig ac roedd dau ddarparwr ar lefel uwchgyfeirio 4 yn ôl y fframwaith. Mae cyflwyniad diweddar ar Ymddiriedolaeth GIG Dyffryn Gwy yn amlygu bod y gwasanaethau y mae’n eu darparu yn parhau i beri pryder er nad ydynt yn destun mesurau arbennig ers mis Tachwedd 2016. Cafwyd cyflwyniad manwl i’r Pwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch hefyd ar y fframwaith sicrwydd comisiynu ac Ymddiriedolaeth GIG Dyffryn Gwy ym mis Hydref 2017. Mae’n bwysig bod y ddau bwyllgor yn deall y gwahanol agweddau y maent yn canolbwyntio arnynt fel nad oes unrhyw ddyblygu ymdrech, ond bod holl elfennau allweddol o sicrwydd wedi’u cwmpasu.

162 Roedd adroddiad archwilio mewnol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 9 Mai 2017 yn rhoi sicrwydd rhesymol o ran effeithiolrwydd y system rheoli mewnol sydd ar waith i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chomisiynu. Nodwyd bod sicrwydd sylweddol o ran y rhan fwyaf o'r meysydd a brofwyd ond codwyd pryderon ynghylch dau faes; trefniadau contractio a gwybodaeth wael neu anghyflawn am ansawdd a diogelwch gan ddarparwyr. Mae'r ymateb gan y rheolwyr yn nodi y dylid mynd i'r afael â'r holl argymhellion erbyn diwedd mis Mehefin 2017. Mae adolygiad dilynol o gomisiynu ar waith a disgwylir yr adroddiad yn 2018.

163 O ran perfformiad y gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir, mae'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol a Pherfformiad a'r Bwrdd yn adolygu'r adroddiad perfformiad integredig ym mhob cyfarfod. Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro ar y mesurau a nodir yn Fframwaith Canlyniadau GIG Llywodraeth Cymru a chyflawniad o'i gymharu â'r camau gweithredu yng nghynllun blynyddol y Bwrdd Iechyd. Clywodd cyfarfod diweddaraf y Bwrdd ym mis Tachwedd 2017 fod cyflawniad o'i gymharu â'r cynllun a pherfformiad o'i gymharu â'r mesurau yn dda ar ddiwedd ail chwarter 2017-18. Mae pob un o'r chwe nod â sefyllfa gyfunol gadarnhaol o'u cymharu â mesurau ac o'u cymharu â chyflawniad y cynllun. Roedd gan naw o'r deg amcan strategol yn gysylltiedig â mesurau perfformiad cysylltiedig berfformiad cyfunol cadarnhaol o'u cymharu â mesurau yn yr ail chwarter. Mae wyth o'r 12 amcan strategol mewn sefyllfa gyfunol gadarnhaol o gyflawni o'u cymharu â'r cynllun. Caiff meysydd nad ydynt yn cyflawni'r targedau eu trafod yn fanwl gan y Bwrdd a'r pwyllgorau.

164 Rhoddodd ardaloedd y gogledd a'r de gyflwyniadau manwl ar berfformiad gwasanaethau yn eu hardaloedd i bwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch yng nghyfarfodydd mis Chwefror 2017 a mis Mawrth 2017. Roedd gan aelodau'r pwyllgor ddiddordeb yn y cyflwyniadau, gofynnwyd llawer o gwestiynau a chafwyd atebion boddhaol am berfformiad gwasanaethau a ddarperir gan yr ysbytai cymunedol.

## Mae gwaith yn cael ei wneud i nodi'r elfennau gweithlu o gynlluniau cyflawni yr IMTP, ac mae craffu systematig o drefniadau rheoli'r gweithlu wedi gweld gwelliannau mewn rhai metrigau gweithlu

165 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r trefniadau i reoli'r gweithlu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

166 Mae cynllunio'r gweithlu yn bwyslais allweddol i'r Bwrdd Iechyd. Un o chwe nod strategol y Bwrdd Iechyd yw: Bob amser ar y cyd â'n staff – parhau i ddatblygu gweithlu cynaliadwy, bodlon, medrus ac sy'n cymryd rhan, gan gynnwys, pryd bynnag bo hynny'n bosibl, y rhai hynny sy'n gweithio gyda ni ond nad ydynt o reidrwydd wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gennym ni. Un o'r 12 amcan strategol yw: Datblygu gweithlu cynaliadwy, bodlon, medrus sydd wedi ymgysylltu, i ddiwallu anghenion ein trigolion ym Mhowys. Gan ei fod yn sefydliad sy'n comisiynu yn bennaf, mae cyfanswm y bil cyflog am staffio yn is o lawer nag unrhyw le arall, sef dim ond 19% o gyfanswm y gyllideb refeniw o'i gymharu â 70-80% mewn byrddau iechyd eraill yng Nghymru.

167 Mae'r cynlluniau gweithlu a nodir yn yr IMTP yn cael eu datblygu. Cafodd y Pwyllgor Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol bapur ym mis Mehefin 2017 yn casglu at ei gilydd yr holl elfennau o'r IMTP sy'n ymwneud â'r gweithlu. Mae'r cynlluniau yn dangos bod angen recriwtio i sawl maes, yn amodol ar gymeradwyo achos busnes, ac mae angen cymorth ar rai cynlluniau cyflawni i ddatblygu hyfforddiant. Mae'r adolygiadau ar waith hefyd ar gyfer capasiti'r gweithlu cyfan a'r sgiliau mewn rhai meysydd.


168 Mae’r archwilwyr mewnol yn adolygu’r maes rheoli’r gweithlu bob blwyddyn. Mae’r adroddiad ar gynllunio’r gweithlu ym mis Medi 2017 yn dweud y gall y Bwrdd Iechyd fod yn gymharol ffyddiog yn ei drefniadau. Amcan cyffredinol yr adolygiad hwn oedd sicrhau bod yr elfennau gweithlu yng nghynlluniau gwasanaeth yr IMTP sydd wedi’u datblygu gan gyfarwyddiaethau yn cyd-fynd a’r cynllunio gwasanaeth hirdymor. Nodwyd bod sicrwydd sylweddol i strategaeth y gweithlu a’r prosesau adrodd ar sicrwydd. Argymhellwyd y dylid gwneud rhywfaint o waith er mwyn sicrhau bod y lefelau staff yn deillio o gynlluniau adnoddau manwl. Roedd hyn oherwydd bod y cynlluniau ar gyfer 2017-20 yn seiliedig ar lefelau cyfredol y sefydliad, ond y bwriad yw newid i fod yn seiliedig ar angen ar gyfer yr IMTP nesaf.

169 Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol wrth y pwyllgor ym mis Mehefin 2017 mai’r prif risg i’r Bwrdd Iechyd oedd unwaith yn rhagor y gallu i lenwi swyddi clinigol allweddol. Roedd gwaith yn parhau i wella’r elfen recriwtio a chadw staff ar bob haen yn y Bwrdd Iechyd. Mae’r risg o ran recriwtio ar y gofrestr risg gorfforaethol ac mae’r Pwyllgor Datblygu’r Sefydliad yn ei hadolygu. Sicrhaodd y pwyllgor bod gwaith yn parhau i wella o ran recriwtio a chadw yn y gweithlu ar bob lefel yn y Bwrdd Iechyd. Mae’r risg i recriwtio ar y gofrestr risg gorfforaethol.

170 Trafododd y Pwyllgor Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol risg CR7 yn ei gyfarfod ym mis Awst 2017. Daeth y pwyllgor i’r casgliad y dylid aileirio’r disgrifiad o’r risg i ‘Bylchau yn y sgiliau a’r cymwyseddau gofynnol er mwyn gweithredu gwasanaethau yn ddiogel ac yn effeithiol’. Cytunodd y pwyllgor bod y risg hwn i lawr i 12 erbyn hyn, o 16. Cytunodd y pwyllgor y dylai’r risg fod yn destun adolygiad rheolaidd gan y pwyllgor yn rhan o’i gofrestr risg ac ar y sail honno cytunwyd i ddaduwchgyfeirio. Yn sgil hyn, pan ddychwelwyd y risg i’r Bwrdd, fe’u hysbyswyd am broblemau staffio ar y gorwel ac felly cytunwyd y byddai angen i’r risg aros yn risg uchel (16). Trafodwyd a chefnogwyd y penderfyniad hwn gan y Pwyllgor Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol pan gyfarfu ar 3 Hydref 2017. Mae rhagor o risgiau wedi codi gan fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cap ar staff locwm o asiantaethau meddygol, ac yn dilyn asesiad risg, ychwanegodd y Pwyllgor Gweithredol ragor o reolyddion i’r gofrestr risg ar gyfer CR7.

171 Mae’n bwysig bod gan y Bwrdd Iechyd brosesau recriwtio effeithlon. Mae cyfanswm amser recriwtio yn un mesur gan fod oedi wrth gynnig swydd yn gallu golygu y bydd ymgeiswyr yn tynnu’n ôl ac yn cynyddu’r defnydd o staff dros dro mewn swyddi gwag. Caiff cyfanswm amser recriwtio ei fesur o pan osodir hysbyseb i adeg pan fydd yr holl archwiliadau cyn-cyflogaeth wedi’u cwblhau. Gweithredwyd cam ychwanegol o fis Ebrill 2016 pan gyflwynwyd llythyr cynnig diamod hefyd ar ôl i’r archwiliadau cyn-cyflogaeth gael eu cynnal. Mae Arddangosyn 9 yn dangos sut y mae’r Bwrdd Iechyd wedi gwella’r amser a gymerir i fynd trwy’r holl gamau hyn o bron i 90 diwrnod yn 2013-14 i 65 diwrnod yn 2016-17, sy’n debyg i gyfartaledd Cymru gyfan. Dywedodd y Cyfarwydd Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol wrthym ei bod yn adolygu dulliau o gyflymu’r broses recriwtio.

Arddangosyn 9: cyfanswm amser recriwtio cyfartalog Powys a Chymru Gyfan





Ffynhonnell: Gwasanaethau Recriwtio GIG; cronfa ddata 2013-16 o weithgarwch recriwtio, system recriwtio TRAC 2016-17.

Nodyn: Nid yw'n cynnwys cymeradwyo swyddi gweigion.

172 Yn ystod y flwyddyn, bu cynnydd yn y gyfradd trosiant staff. Yn y 12 mis hyd at fis Hydref 2017 cynyddodd y trosiant treigl i 11.55%, i fyny o 9.21% yn y mis Hydref blaenorol. Roedd y lefelau uchaf ymysg Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, sef 14.88% wedi'i ddilyn gan Staff Nyrsio a Bydwreigiaeth Cofrestredig, sef 13.91%. Er ei bod yn anodd gwneud cymhariaethau uniongyrchol, mae Arddangosyn 10 yn dangos bod y gyfradd trosiant yn uwch na'r byrddau iechyd eraill yng Nghymru ym mis Mawrth 2017.

Arddangosyn 10: trosiant staff mewn Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG ar gyfer pob grŵp staff, mis Mawrth 2017




Ffynhonnell: Electronic Staff Record Business Intelligence Workforce Performance Measures, Mai 2017.

173 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gwneud gwaith i ddeall pam y bu cynnydd yn y trosiant staff. Cafodd pwyllgor mis Awst 2017 ddiweddariad recriwtio a chadw a nodwyd bod grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu i archwilio ffyrdd o wella recriwtio'r Bwrdd Iechyd, a chytunwyd ar nifer o gamau gweithredu ac maent bellach yn y broses o gael eu cyflawni. Dywedwyd wrth y pwyllgor bod dros 29% o'r staff a adawodd o ganlyniad i Ymddeoliad Oedran/Hyblygrwydd/Cynnar/Salwch. Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall bod gan Bowys boblogaeth hŷn, ac felly, gweithlu hŷn. Fodd bynnag, mae dadansoddiad o'r ffigyrau yn dangos bod 29% o'r ymadawiadau eraill yn wirfoddol ond bod y rheswm yn 'arall neu anhysbys'. Trafododd yr aelodau y rhesymau pam fod staff yn gadael y sefydliad a'r amharodrwydd i lenwi holiadur gadael yn y pwyllgor ym mis Hydref 2017. Dywedodd y Cynrychiolydd o Ochr y Staff ei bod wedi siarad â staff a oedd yn gadael y sefydliad ac wedi eu hannog i gael cyfweliad ymadael ond fod y staff yn amharod i lenwi holiadur. Awgrymodd un o'r Aelodau Unigol y dylai'r staff gael eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyfweliad ymadael wyneb yn wyneb yn hytrach na holiadur. Mae'n bwysig gwneud ymdrech i ddeall y rhesymau sydd y tu ôl i'r ymddiswyddiadau hyn ac amharodrwydd y staff i drafod pam eu bod yn dymuno gadael. Er bod rhaglen 'Chat to Change' y staff yn gwneud rhywfaint o waith yn y maes hwn, byddai rhagor o waith i ddadansoddi'r broblem hon yn ddefnyddiol er mwyn deall y cyfraddau trosiant.

174 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cadw llygad barcud ar staff banc a staff asiantaeth. Mae angen nyrsys dros dro ar y Bwrdd Iechyd oherwydd bod rhwng 27 a 30 o swyddi gweigion ar unrhyw adeg. Caiff y gwariant ar staff asiantaeth ei fonitro yn rhan o'r adroddiad cyllid misol. Roedd adroddiad cyllid mis 7 i'r Bwrdd yn nodi bod y Bwrdd Iechyd yn adolygu'r defnydd o staff asiantaeth ac yn ceisio defnyddio

staff banc yn hytrach na staff asiantaeth, neu pan fo hynny'n fuddiol yn ariannol, defnyddio taliadau uwch i staff sydd eisoes yn gweithio i'r Bwrdd Iechyd mewn swydd arall. Yn ogystal â hyn, mae cyfradd genedlaethol ddiwygiedig wedi ei chytuno ar gyfer asiantaethau 'ar gontract' ac felly caiff y defnydd o asiantaethau 'oddi ar gontract' ei dargedu ar gyfer ei leihau yn y misoedd sydd i ddod. Sefydlwyd Uned Staffio Dros Dro newydd ar gyfer staff nyrsio a staff meddygol yn ystod y flwyddyn, a disgwylir y bydd hyn yn gwella'r trefniadau, er enghraifft, trwy gysylltiadau cryfach â'r rhestrau dyletswyddau. Mae'r archwilwyr mewnol yn cynnal adolygiad o'r Gwariant ar Asiantaethau ac Ymgynghoriaethau a disgwylir adroddiad yn 2018.

175 Gwelwyd rhai gwelliannau yn nifer o feysydd rheoli'r gweithlu yn ystod y flwyddyn ond ni fodlonwyd targedau Llywodraeth Cymru:

- Roedd y gyfradd absenoldeb salwch ym mis Hydref 2017 yn 4.62%, sydd ychydig yn uwch na'r targed lleol o 4.42%. Mae hwn yn well na chyfradd salwch GIG Cymru sef 5.1%, ond mae gwahanol broffiliau staff yn ei gwneud yn anodd cymharu'n uniongyrchol. Er hyn, dros y 12 mis diwethaf, collwyd 24,819 o ddiwrnodau cyfwerth ag amser cyflawn sef yr hyn sy'n cyfateb i dros £2 filiwn a gollwyd mewn blwyddyn. Gorbryder, straen ac iselder a phroblemau cyhyrysgerbydol yw'r prif resymau am absenoldeb salwch, sydd i gyfrif am bron i 43% o'r holl salwch. Cafodd y Pwyllgor Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol bapur manwl ar reoli presenoldeb ledled y Bwrdd Iechyd ym mis Rhagfyr 2017 i roi rhagor o fanylion ar y materion sylfaenol a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i gryfhau prosesau rheoli presenoldeb.
- Roedd y lefelau cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol ym mis Hydref 2017 yn 79%, a oedd yn well na'r targed lleol o 74% a chyfartaledd Cymru o 63%. Er hyn, nid ydynt yn bodloni targed Llywodraeth Cymru o 85%. Cafodd y pwyllgor gyflwyniad ar hyfforddiant statudol a gorfodol ym mis Ionawr 2017 ac roedd papur yng nghyfarfod mis Awst 2017 yn amlygu bod gwelliannau cadarnhaol wedi'u gwneud yn ystod y 12 mis diwethaf, er bod cyfradd y gwella wedi arafu ychydig. Roedd y papur yn nodi'r camau a oedd yn cael eu cymryd ar draws y sefydliad i wella cyfraddau hyfforddi.
- Mae cyfraddau arfarniad perfformiad ac adolygiad datblygu (PADR) wedi gwella ac roeddynt yn 78.8% ym mis Hydref 2017. Mae hwn yn is na'r targed cenedlaethol o 85% a'r targed lleol o 81% ond mae'n well na chyfradd GIG Cymru gyfan, sef 64%. Roedd adroddiad yr archwilwyr mewnol ar PADR (Asesiad Ansawdd) yn rhoi sicrwydd rhesymol. Cafodd y Pwyllgor Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol bapur manwl ar adolygiadau PADR ar draws y Bwrdd Iechyd ym mis Rhagfyr 2017 yn nodi'r camau gweithredu a gymerwyd i wella'r cyfraddau o gwblhau PADR yn ystod y chwe mis a aeth heibio. Drwy weithio'n agos gyda'r cyfarwyddiaethau, bu newid cadarnhaol o 4.7% yn y sefyllfa gyffredinol dros y chwe mis a aeth heibio, a hynny ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Mae'r cyfraddau ailddilysu meddygol yn 90%. Gwnaethom adrodd ym mis Mawrth 2017 ar drefniadau i sicrhau gwasanaethau meddygon ymgynghorol y GIG yn y Bwrdd Iechyd. Daeth ein hadolygiad o gynllunio swyddi ac ailddilysu i'r casgliad bod cynllunio swyddi a threfniadau arfarnu ar gyfer meddygon ymgynghorol a gyflogir yn uniongyrchol yn gweithio'n dda, ond y gallai'r Bwrdd Iechyd egluro a safoni ei ddull ar draws y sefydliad.

## Mae llywodraethu gwybodaeth yn faes o risg o ystyried y capasiti staff cyfyngedig a'r angen i weithredu Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yr UE

176 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'n casgliad yn deillio o'n hadolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

177 Mae ein hadroddiadau asesu strwythuredig yn ystod y tair blynedd diwethaf wedi canolbwyntio ar ymdrechion parhaus y Bwrdd Iechyd i gryfhau trefniadau cyflawni a goruchwylio llywodraethu gwybodaeth. Yn 2016, daethom i'r casgliad bod llywodraethu gwybodaeth yn parhau i fod yn bryder ond mae newidiadau diweddar wedi cryfhau'r gwaith o ddatblygu strategaeth, arweinyddiaeth a threfniadau sicrwydd.

178 Ym maes llywodraethu gwybodaeth a diogelwch TG, barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2016-17 oedd y ceir sicrwydd cyfyngedig yn gyffredinol. Roedd hyn oherwydd y rhoddwyd sicrwydd cyfyngedig i'r adolygiad o Lywodraethu Gwybodaeth a Chydnerthedd. Roedd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar drefniadau i allu integreiddio swyddogaethau TGCh y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd a chefnogi cyflawniad y Strategaeth TGCh ar y Cyd a'r IMTP trosfwaol. Nododd yr archwiliad nifer o broblemau ynghylch llywodraethu, rheoli risg a diogelwch, gweithdrefnau adfer ac ailsefydlu a rheolyddion ffisegol ac amgylcheddol. Mae adolygiad dilynol ar waith i asesu'r cynnydd o'i gymharu â'r argymhellion.

179 Cynhaliodd yr archwilwyr mewnol adolygiad dilynol hefyd ar adroddiad sicrwydd cyfyngedig Ansawdd Data 2015-16. Roedd yr adolygiad hwn yn adrodd cynnydd sylweddol o ran gweithredu'r argymhellion, ac yn sgil hynny cafwyd sicrwydd rhesymol.

180 Cwblhawyd gwaith dilynol ar Adroddiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a'r gwaith dilynol ar Reoli Cofnodion yn 2017, a chanfuwyd sicrwydd rhesymol. Mae dau adolygiad llywodraethu gwybodaeth ar waith ar hyn o bryd ar y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol ac adfer ar ôl trychineb. Mae torri safonau llywodraethu gwybodaeth a gofynion deddfwriaethol ar y gofrestr risg gorfforaethol fel risg lefel uchel, i gydnabod pwysigrwydd cryfhau trefniadau llywodraethu gwybodaeth.

181 Mae'r Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, Technoleg a Llywodraethu (IMTGC) yn goruchwylio sicrwydd llywodraethu gwybodaeth ar ran y Bwrdd. Diweddarwyd cylch gorchwyl yr IMTGC ym mis Mawrth 2017 a chafodd y pwyllgor aelod annibynnol ychwanegol, gan gynyddu'r aelodaeth o dri i bedwar. Mae'r IMTGC wedi cyfarfod bedair gwaith yn ystod 2017 ac mae pob cyfarfod wedi bod â chworwm. Mae arsylwadau o'r IMTGC yn dangos ei fod yn gweithredu'n dda. Dim ond ym mis Hydref 2017 y darparwyd ac y cymeradwywyd rhaglen waith yr IMTGC ar gyfer 2017-18. Mae hyn yn torri'r rheolau sefydlog gan y dylid cytuno ar raglenni gwaith pwyllgorau ym mis Mawrth.

182 Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth llywodraethu gwybodaeth a chynllun gweithredu ar gyfer 2015-18 a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2015. Cafodd yr IMTGC gyflwyniad ar flaenoriaethau'r chwarter cyntaf yng nghyfarfod mis Ebrill 2017. Roedd hwn yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r angen i weithio gyda phartneriaid y tu allan i'r Bwrdd Iechyd yn rhan o drefniadau llywodraethu gwybodaeth.

183 Mae'r IMTGC wedi datblygu cofrestr risg pwyllgorau yn ddiweddar, gan dynnu at ei gilydd risgiau perthnasol o'r gofrestr risg gorfforaethol, fframwaith sicrwydd a chofrestri risg y cyfarwyddiaethau. Trafodwyd drafft cyntaf cofrestr risg y pwyllgorau yng nghyfarfod IMTGC mis Hydref 2017 ac mae'n cynnwys pum risg, ac mae un ohonynt, sy'n ymwneud â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, wedi'i huwchgyfeirio i'r gofrestr risg gorfforaethol.

184 Ysgrifennydd y Bwrdd yw'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth a hi yw'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO), sef swyddogaeth arweinydd sy'n berchen ar bolisi risg gwybodaeth sefydliad a rheoli risg gwybodaeth. Mae hi'n rheoli'r tîm llywodraethu gwybodaeth sy'n dîm o ddau aelod o staff (rhan amser), ac mae'r lefel hon o gymorth wedi aros yr un fath yn y blynyddoedd diweddar ac yn parhau i gwmpasu portffolio mawr o ddyletswyddau llywodraethu gwybodaeth. Mae swyddogaeth y tim llywodraethu gwybodaeth wedi newid i bwysleisio mwy ar bolisïau cynghori, canllawiau a hapwiriadau ac mae mwy o bwyslais ar bob cyfarwyddiaeth i berchnogi ei gwaith llywodraethu gwybodaeth, gyda chefnogaeth hyrwyddwyr llywodraethu gwybodaeth y cyfarwyddiaethau. Fodd bynnag, mae llwyth gwaith y tîm yn parhau i fod yn heriol oherwydd ei gapasiti a faint o amser y mae'r staff yn ei dreulio ar geisiadau gwrthrycham wybodaeth, sef ceisiadau gan gleifion i weld eu cofnodion meddygol, a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth sy'n cyfyngu ar yr amser y gallant ei dreulio ar feysydd eraill o gydymffurfio.

185 Mae'r hyrwyddwyr llywodraethu gwybodaeth wedi eu henwebu gan y Cyfarwyddwyr a'u swyddogaeth yw bod yn batrwm o lywodraethu gwybodaeth da yn eu cyfarwyddiaethau. Nid yw'r hyrwyddwyr llywodraethu gwybodaeth yn gyfrifol am lywodraethu gwybodaeth yn y cyfarwyddiaethau,ond yn hytrach maent yn ffynhonnell leol o gyngor sylfaenol ac yn sicrhau bod canllawiau gwybodaeth yn cael eu cadw'n uchel ar agendâu lleol. Mae'r grŵp hyrwyddwyr llywodraethu gwybodaeth wedi disodli'r Grŵp Rheoli Llywodraethu Gwybodaeth (IGMG), a ailsefydlwyd yn 2016 ond nad oedd yn effeithiol. Mae gan y grŵp hyrwyddwyr llywodraethu gwybodaeth aelodau o lefel uwch na'r IGMG. Mae'r hyrwyddwyr yn chwilio am ffyrdd o fesur perfformiad ac effeithiolrwydd y grŵp hyrwyddwyr, a darperir adroddiadau cynnydd i'r IMTGC. Mae arwyddion cynnar bod y swyddogaethau hyn wedi eu cymryd â chryn frwydfrydedd ond mae'n rhy gynnar i wybod pa mor effeithiol yw'r trefniadau hyn.

186 Mae'r tîm llywodraethu gwybodaeth wedi cynnal asesiad yn erbyn nodyn arweiniad GDPR '12 Steps to Readiness' Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Maent wedi llunio trosolwg o'r sefyllfa bresennol fel sefydliad ac wedi nodi bylchau, gan nodi'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i gydymffurfio â'r rheoliadau mewn cynllun gweithredu. Ceir cynigion hefyd i gael aelod o staff band 5 ychwanegol am 12-18 mis i helpu i baratoi ar gyfer GDPR, a heb yr aelod staff hwn, dywedwyd wrthym y byddai'r Bwrdd Iechyd yn ei chael hi'n anodd cydymffurfio erbyn y dyddiad terfyn gofynnol.

187 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi llofnodi Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) ac mae dau hwylusydd wedi'u hyfforddi yn aelodau o'r tîm llywodraethu gwybodaeth. Maent yn rhan o grŵp sicrwydd ansawdd rhanbarthol WASPI aml-sefydliad canolbarth a gorllewin Cymru, sy'n adolygu ac yn cytuno ar brotocolau newydd. Defnyddir y templed WASPI i ddatblygu protocolau rhannu newydd yn lle'r hen brotocolau.

188 Cymerodd y Cyfarwyddwr Meddygol swyddogaeth Gwarcheidwad Caldicott pan ddechreuodd yn ei swydd ym mis Ionawr 2017. Fel yr adroddwyd i'r IMTGC ym mis Hydref 2017, cynhelir Asesiad Egwyddorion Caldicott ar Waith (C:PiP) 2016-17 bob blwyddyn i asesu pa un a oes trefniadau ar waith i sicrhau yr ymdrinnir â gwybodaeth am gleifion yn briodol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei sgôr cyffredinol i 92% (o 88% yn 2015-16). Mae hwn yn cymharu'n ffafriol â byrddau iechyd eraill, ac mae'r rhan fwyaf o'r rheiny wedi cael sgôr o rhwng 85% a 89%. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y cynllun i'r grŵp hyrwyddwyr llywodraethu gwybodaeth, sydd yn ei fonitro hefyd.

189 Mae'r IMTGC yn derbyn adroddiad perfformiad ar gydymffurfiad â safonau a deddfwriaeth llywodraethu gwybodaeth allweddol. Roedd yr adroddiad diweddaraf ym mis Hydref 2017 yn amlygu cynnydd o 45% mewn ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fis Ebrill i fis Medi 2017 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2016. Clywodd yr IMTGC bod gwaith wedi ei wneud i asesu'r rhesymau am oedi wrth ymateb, gan fod 31% o'r ymatebion i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi torri'r terfyn o 20 diwrnod. Roedd y rhesymau yn ymwneud ag ansawdd a phrydlondeb yr ymatebion a baratowyd gan arweinwyr gwasanaethau a chadarnhad gan swyddogion gweithredol, a'r cynnydd mewn nifer a chymhlethdod y ceisiadau. Mae ystod o gamau wedi eu gweithredu i geisio ymdrin â'r materion hyn ond mae'r cynnydd yn nifer y ceisiadau yn effeithio ar allu'r tîm llywodraethu gwybodaeth i wneud gwaith arall.

190 Mae adroddiad alldro C:PiP 2016-17 yn nodi bod cydymffurfiad â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth yn 83% ym mis Awst 2017. Yn ogystal â hyn, roedd hyfforddiant penodol i swyddogaeth wedi ei nodi a'i ddarparu ar gyfer y swyddi canlynol: Gwarcheidwad Caldicott, SIRO, y tîm llywodraethu gwybodaeth, cynrychiolwyr SAR, cysylltiadau Rhyddid Gwybodaeth allweddol, perchnogion asedau gwybodaeth, a hwyluswyr WASPI. Ceir cyfathrebu a hyfforddiant priodol ar gyfer yr holl staff ar faterion sy'n ymwneud ag ymdrin â gwybodaeth yn gyffredinol. Ceir hyfforddiant penodol ar gyfer meysydd risg uchel, fel ymadweithio gofal cymdeithasol, plant ac oedolyn sy'n agored i niwed, a gwybodaeth sy'n sensitif yn glinigol.

191 Mae atodlen y polisi llywodraethu gwybodaeth yn nodi bod polisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth allweddol ar waith, ac mae dyddiadau adolygu rhai o'r dogfennau wedi eu hymestyn tan fis Mai 2018, gan fod gwaith yn mynd rhagddo yn genedlaethol i adolygu polisïau er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno GDPR. Mae gan y sefydliad bolisi ar waith sy'n pennu gofynion ar gyfer cydymffurfio â diogelu data, rhyddid gwybodaeth, Caldicott a WASPI. Ceir polisi TG clir a phriodol hefyd ar gyfer diogelwch a defnyddio technoleg, a chaiff y polisi hwnnw ei ledaenu'n effeithiol i'r holl staff perthnasol. Mae'r rheolaethau sydd arwaith yn sicrhau bod rheolyddion effeithiol, mesurau a thechnolegau priodol i'r sefydliad yn weithredol er mwyn diogelu'r asedau TG a gwybodaeth allweddol. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn y broses o ystyried swyddogaethau Gwarcheidwad Caldicott, SIRO a DPO i egluro eu cyfrifoldebau a nodi eu cylchoedd gwaith yn glir.

192 Mae'r gofrestr risg gorfforaethol ar gyfer mis Medi 2017 yn amlygu'r risg canlynol yn uchel: CR8 Diffyg system TGCh gadarn a sefydlog. Y camau sy'n ofynnol yw cryfhau'r adeiledd TGCh i sicrhau llwyfan TGCh sefydlog ar gyfer y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor sy'n hyblyg ac sy'n barod ar gyfer y dyfodol. Mae'r Gyfarwyddiaeth Cyllid a TG yn gyfrifol am y strategaeth rheoli gwybodaeth a thechnoleg (IM&T) a gwasanaethau ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cynnwys datblygiad strategol yr adeiledd TG a gweithrediad prif brosiectau, caffael a moderneiddio TG a gweithredu'r trefniadau Adran 33 sy'n bodoli

â Chyngor Sir Powys[2] ar gyfer darparu gwasanaethau TG. Y Cyfarwyddwr Cyllid yw'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer TG a bu yn ei swydd drwy gydol 2017, gan ddod â sefydlogrwydd i'r portffolio a newidiodd dair gwaith yn ystod 2016.

193 Nid yw'n glir a oes adnoddau effeithiol ar gyfer y gwasanaeth IM&T ar y cyd er mwyn bodloni'r gofynion cyflawni o safbwynt y Bwrdd Iechyd. Er bod strwythurau staffio TG ar waith, maent yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Yn ogystal â hyn, nid oes unrhyw arolygon defnyddwyr diweddar wedi eu cynnal i asesu barn defnyddwyr TG am y gwasanaeth a ddarperir. Nid yw'r ddesg gwasanaeth yn bodloni ei chytundeb lefel gwasanaeth yn llawn o ran yr amser a gymerir i ateb galwadau, sydd yn 80% ar hyn o bryd.

194 Roedd asesiad strwythuredig 2016 yn nodi bod strategaeth a chynlluniau IM&T clir ar waith ar gyfer llywodraethu IM&T ar sail amcan strategol 7 yr IMTP (Atebion TGCh Diogel Arloesol wedi eu datblygu ar lwyfan sefydlog). Mae'r Strategaeth TGCh ar y Cyd gyfredol (2016-18) yn cael ei hadnewyddu'n sylweddol ar hyn o bryd, ac mae wedi ei halinio â Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ddigidol ac mae'n ceisio bodloni gofyniad Llywodraeth Cymru i bob Bwrdd Iechyd fod â Rhaglen Strategol Amlinellol (SOP)[3]. Dywedwyd wrthym y bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar gwsmeriaid ac yn cynnwys cyfeiriad at System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), a disgwylir y bydd y strategaeth ddiwygiedig yn cael ei chwblhau yn gynnar yn 2018.

195 Mae seiberddiogelwch yn rhan o'r polisi diogelwch gwybodaeth. Mae dogfen Gweithdrefnau Ymateb i Ddigwyddiad TGCh ar waith hefyd, yn dilyn adolygiad mewnol ar seiberddiogelwch gan staff TGCh yn y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor (a nododd yr angen i wella mewn rhai meysydd technegol a'r angen hefyd am hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff), a'r ymosodiadau maleiswedd Wannacry yn fyd-eang.

[2] Darpariaeth TG ar y cyd â Chyngor Sir Powys o dan Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982.

[3] Lluniwyd y Rhaglen Strategol Amlinellol (SOP) ar gyfer Gwybodeg ym mhob bwrdd iechyd, mewn ymateb i gylchrediad Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ddigidol gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2015. Nod yr SOP yw cefnogi'r dyraniad cynllunio ac ariannol canolog gan y tîm Iechyd a Gofal Digidol yn Llywodraeth Cymru, a dylai nodi'r rhaglen waith Gwybodeg y mae'r bwrdd iechyd yn bwriadu ymgymryd â hi dros y bum mlynedd ddilynol.

# Atodiad 1

## Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i argymhellion asesiad strwythuredig 2017

Arddangosyn 11: ymateb y rheolwyr

Mae'r tabl canlynol yn nodi argymhellion 2017 ac ymateb y rheolwyr.

| Argymhellion | | Canlyniad/ budd arfaethedig | Blaenoriaeth Uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/ naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Ni chymeradwywyd rhaglenni gwaith y bwrdd a'r pwyllgorau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Er y rhoddwyd sicrwydd i ni bod yr holl bwyllgorau wedi bod yn gweithio i raglenni gwaith drafft, gwnaethom argymell bod holl raglenni y Bwrdd a'r pwyllgorau yn cael eu cwblhau cyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. | Cefnogi gweithrediad effeithiol y Bwrdd a'r pwyllgorau. | Ydy | Do | Roedd yr oedi o ganlyniad i broblemau staffio sydd wedi eu datrys erbyn hyn. Mae gwaith ar ddatblygu rhaglenni gwaith ar gyfer 2018-19 wedi dechrau ac mae trefniadau ar waith iddynt gael eu cytuno a'u hadrodd i'r Bwrdd yn unol â'r gofyniad, sef diwedd mis Mawrth. | 31 Mawrth 2018 | Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Argymhellion | | Canlyniad/ budd arfaethedig | Blaenoriaeth Uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/ naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A2 | Cynyddodd cyfradd trosiant dreigl y staff yn ystod y 12 mis hyd at Hydref 2017 i 11.55%, cynnydd o 9.21% ar y mis Hydref blaenorol. Y gyfradd hon oedd yr uchaf yng Nghymru. Er bod y bwrdd Iechyd yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem, rydym yn argymell bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud rhagor o waith i ddeall y rhesymau y tu ôl i'r cynnydd yng nghyfradd trosiant y gweithlu a chymryd camau i fynd i'r afael â'r cynnydd. | Cefnogi cadw staff. | Ydy | Do | Bydd darn o waith sy'n canolbwyntio ar drosiant staff ac asesiad yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig 2018 – 2021. | 31 Mawrth 2019 | Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol |
| A3 | Darperir gwasanaethau TG o dan gytundeb Adran 33 â'r Cyngor. Nid yw'r ddesg gwasanaeth yn bodloni ei chytundeb lefel gwasanaeth (SLA) o ran yr amser a gymerir i ateb galwadau. Nid oes unrhyw arolygon bodlonrwydd defnyddwyr diweddar wedi eu cynnal i asesu barn defnyddwyr TG o'r gwasanaeth a ddarperir. Rydym yn argymell y dylid cynnal arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid â'r gwasanaethau TG. | Gwella'r gwasanaeth TG. | Ydy | Do | Yn ail hanner 2017, cyflwynwyd arolwg bodlonrwydd yn gysylltiedig â galwadau a gofnodwyd.<br>Yn 2018, byddwn yn ceisio sefydlu arolwg llawn a chyflwyno bwrdd rheoli gwasanaeth Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i fonitro, rheoli a diwygio'r cytundeb lefel gwasanaeth. | 31 Rhagfyr 2018 | Cyfarwyddwr Cyllid a TG |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru